

Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Datganiadau Ariannol



Cynnwys

Manylion Gweinyddol	3-5
Adroddiad Strategol.....	6-13
Adroddiad y Bwrdd	14-18
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Aelodau.....	19-21
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.....	22
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	23
Datganiad o'r Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.....	24
Datganiad Llif Arian	25
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	26-57

Manylion Gweinyddol

Aelodau'r Bwrdd

Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd: Nicola Evans (Cadeirydd)
John Chown (Is-gadeirydd) – ymddiswyddodd ar 06 Medi 2018
Elizabeth Lendering – (Is-gadeirydd o 20 Tachwedd 2018)
Stephanie Howarth
Carol James
Marc Fury – ymddiswyddodd ar 14 Mawrth 2019
Rachel Honey-Jones
Jonathan Tumelty
Chris Bolton – penodwyd ar 21 Mawrth 2019
Yr Athro Calvin Jones – penodwyd ar 21 Mawrth 2019

Swyddogion Gweithredol: Michael Owen (Prif Weithredwr)
Lorraine Oates (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau)
Victoria Slade (Cyfarwyddwr Gweithrediadau)

Corff Democrataidd

Tenantiaid sy'n Aelodau: Frances Bevan (Cadeirydd tan 10 Mai 2018)
Tracey Powell
Marlene Burns
Kim Ford – ymddiswyddodd ar 06 Medi 2018
Gaynor Bradley
Joan Marshall
Val Lloyd – ymddiswyddodd ar 06 Medi 2018
Nigel Phillips-Gunter (Is-gadeirydd o 13 Medi 2018)
Vivian Evans
Olga Thomas – penodwyd ar 10 Mai 2018
Paul Franklin – penodwyd ar 06 Medi 2018
Paula Hamer – penodwyd ar 06 Medi 2018 –
ymddiswyddodd ar 21 Chwefror 2019
Annette Longbottom – penodwyd ar 08 Tachwedd 2018

Gweithwyr sy'n Aelodau: Natalie Warner (Is-gadeirydd tan 9 Mai 2018) (Cadeirydd o 10 Mai 2018)
Mansell Mason – ymddiswyddodd ar 06 Medi 2018
Ceri Price
Stephen Puddy
Robert Davenport – ymddiswyddodd ar 06 Medi 2018
Kevin Clifford – ymddiswyddodd ar 06 Medi 2018
Alex Barlett

Manylion Gweinyddol (par.)

Gweithwyr sy'n Aelodau:

(parhad):

Mark Davies – penodwyd ar 10 Mai 2018
Julie McCarthy – penodwyd ar 06 Medi 2018
Kris Cole – penodwyd ar 06 Medi 2018
Kirsty Beattie – penodwyd ar 06 Medi 2018

Corff Democrataidd:

Julian Pike – ymddiswyddodd ar 09 Tachwedd 2018
Tanya Skinner – ymddiswyddodd ar 17 Gorffennaf 2018
Chris Davies – penodwyd ar 17 Gorffennaf 2018,
ymddiswyddodd ar 18 Hydref 2018
Steve Peters – penodwyd ar 10 Ionawr 2019,
ymddiswyddodd ar 31 Mawrth 2019
Jeremy Davies – penodwyd ar 10 Ionawr 2019

Swyddfa Gofrestredig:

Tŷ Brychan
22 Heol Lansbury
Gellideg
Merthyr Tudful
CF48 1HA

Archwilydd Annibynnol:

Mazars LLP
Cyfrifwyr Siartredig
45 Church Street
Birmingham
B3 2RT

Archwilwyr Mewnol:

Barcud Shared Services
Valleys to Coast Ltd
Parc Busnes Tremains
Heol Tremains
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1TZ

Cyfreithwyr:

Trowers and Hamlins LLP
Sceptre Court
40 Tower Hill
Llundain
EC3N 4DX

Manylion Gweinyddol (par.)

Bancwyr: National Westminster Bank Plc
Cangen Blaenau'r Cymoedd
122 Stryd Fawr
Merthyr Tudful
CF47 8BN

Cyllidwyr: The Royal Bank of Scotland plc
Global Banking and Markets
Housing Finance
9th Floor 250 Bishopsgate
Llundain
EC2M 4AA

Cymdeithas Adeiladu'r Principality
Blwch Post 89
Adeiladau'r Principality
Heol y Frenhines
Caerdydd
CF10 1UA

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig yn gymdeithas sydd wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Rhif cofrestru: 30532 R.

Mae wedi cofrestru'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru.

Rhif cofrestru: L150

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno ei Adroddiad Strategol ar fusnes Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (CCM), ynghyd â'i Ddatganiadau Ariannol ac Adroddiad yr Archwilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Statws Cyfreithiol

Mae CCM wedi'i sefydlu a'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi cofrestru â Llywodraeth Cymru. Mae CCM wedi mabwysiadu rheolau elusennol. Mae CCM yn sefydliad cydfuddiannol dim-er-elw sy'n cael ei weinyddu gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol.

Prif weithgareddau ac amcanion

Mae CCM yn berchen ar 4,103 o gartrefi rhent, yn eu rheoli ac yn eu cynnal a chadw. Mae hyn yn cynnwys 206 o unedau llety gwarchod ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Hefyd, mae CCM yn rheoli neu'n berchen ar 607 garej, 39 uned manwerthu, bloc o 12 o fflatiau tai cydweithredol sy'n cael eu gosod ar brydles i Gydweithrediaeth Dai Taf Fechan Housing Cyfyngedig a 278 eiddo prydles.

Mabwysiadwyd ein Strategaeth Gorfforaethol 'Yfory' yn 2016/17. I ni, bydd Yfory yn dod â:-

- Balchder yn y cymunedau lle rydym yn byw
- Balchder yn y sefydliad rydym yn berchen arno ac yn gweithio iddo
- Mwy o gyfleoedd i bawb gymryd cyfrifoldeb

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu cyflawni Yfory, mae'n rhaid i ni fod yn gadarn yn ariannol.

Dyma ein prif amcanion:

Cymunedau

- Mae arnom eisiau gwella'r holl fannau gwyrdd agored.
- Mae arnom eisiau i'n holl gartrefi fod yn ddiogel, yn defnyddio ynni'n effeithlon ac yn edrych yn dda y tu mewn a'r tu allan.
- Byddwn yn parhau i fod y buddsoddwr angor a byddwn yn annog mewnfuddsoddi ym mhob maes hefyd.
- Mae arnom eisiau darparu'r cyfleoedd gorau i'n cymuned.
- Mae arnom eisiau i bob aelod o'n cymuned deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
- Mae arnom eisiau darparu atebion tai i bobl ifanc.
- Mae arnom eisiau adeiladu'r math o dai sydd eu hangen ar ein cymuned.

Y Sefydliad

- Rydym yn gwmni cydfuddiannol a byddwn yn cydweithio i gyflawni ein nodau.
- Byddwn yn byw wrth yr egwyddorion cydfuddiannol o ran sut rydym yn gweithredu.
- Byddwn yn gweithredu mewn ffordd ddemocrataidd a byddwn yn atebol i'n haelodau.
- Bydd gennym weithlu medrus, wedi'u hyfforddi'n dda, i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein haelodau.
- Byddwn yn defnyddio technoleg i adeiladu gwell gwasanaethau a chysylltiadau

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

cadarnach.

- Byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr pwysig yn y Fwrdeistref, gan osod y safonau uchaf ac annog eraill i wneud yr un fath.

Cyfrifoldeb

- Mae arnom eisiau bod y gorau.
- Mae arnom eisiau darparu cefnogaeth a gwybodaeth i'n haelodau er mwyn eu grymuso.
- Mae arnom eisiau rhannu sgiliau a gwersi sy'n cael eu dysgu â'r aelodau.
- Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb dros gyfathrebu'n effeithiol a bob amser yn ceisio sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'n tenantiaid.
- Byddwn yn cefnogi eraill i gyflawni eu potensial yn llawn drwy grantiau a chefnogaeth.

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol, Yfory, bellach wedi dod i ben, a bydd yn cael ei hadolygu yn 2019/20.

Perfformiad Ariannol

Mae datganiadau ariannol 2018/19 wedi cael eu paratoi o dan FRS102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ('FRS102'), Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Tai - SORP Tai 2014, Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol ('SORP 2014') a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015.

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Roedd gwerth net ar bapur ein stoc dai yn £58.401m ar 31 Mawrth 2019. Roeddem wedi buddsoddi £5.176m mewn gwelliannau cyfalaf yn ystod y flwyddyn, ac roedd ffioedd dibrisiant o £3.590m wedi'u gosod yn erbyn hyn. Mae cyfuniad o falansau arian mewnol

ac incwm grant gan Lywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Ni amharwyd ar unrhyw asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn.

Roedd cyfanswm yr incwm grant yn cynnwys Cyllid Llenwi Bwlch Gwaddoli o £2.9m a £0.334m o Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai 2 ar gyfer datblygu 3 eiddo newydd yng Nghilgant Canonbie, a fydd yn cael eu cwblhau yn 2019/20 a 4 fflat sy'n cael eu hailddatblygu yng Nghlos Forsythia.

Yn ôl prisiad annibynnol o'r stoc dai gan Cushman & Wakefield, sy'n seiliedig ar Werth Defnydd sy'n Bodoli, gan gynnwys Cyllid Llenwi Bwlch Gwaddoli, roedd y gwerth wedi codi i £93.296m ar 31 Mawrth 2019.

Caiff ein heiddo buddsoddi eu priso'n annibynnol bob tair blynedd. Savills gynhaliodd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2018. Gwerth ein heiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2019 oedd £0.878m. Amcangyfrif allweddol yw hwn (darllenwch Nodyn 3 ar y Datganiadau Ariannol).

Benthyciadau

Ni thynnwyd unrhyw fenthyciadau newydd i lawr yn ystod y flwyddyn gan ein benthycwyr (RBS a Principality). £24m oedd balans ein benthyciad ar 31 Mawrth 2019. Roedd £20m o hyn ar gyfraddau llog sefydlog a £4m ar gyfraddau amrywiadwy. Roedd y llog taladwy ar ein benthyciadau wedi codi rhywfaint, sef 0.3% i £1.878m.

Balans ein benthyciad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn 2014/15 i dalu am adnewyddu Taf Fechan House a chreu Cydweithrediaeth Dai newydd oedd £0.428m ar 31 Mawrth 2019.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Ased y Gronfa Bensiwn

Mae ased y gronfa pensiwn yn seiliedig ar brisiad yr Actiwari ar 31 Mawrth 2019. Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn dangos cynnydd yng ngwerth ased y gronfa pensiwn o £1.074m i £4.619m. Roedd cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn 2018/19 yn 8.5% o gymharu â 6.4% yn 2017/18, a bydd yn codi i 10.7% yn 2019/20.

Asedau Net

£21.599m yw sefyllfa gyffredinol yr asedau net ar 31 Mawrth 2019, o gymharu â £15.754m ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn oherwydd y cynnydd yng ngwerth eiddo sy'n dai o ganlyniad i raglen fuddsoddi mawr mewn cartrefi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, cynnydd mewn balansau arian ar ddiwedd blwyddyn a gwerth uwch ased y Gronfa Bensiwn.

CCM: Datblygiadau i'r dyfodol

Yn 2018/19 roedd ein Prif Swyddfa yn barod, ac roedd pob gweithiwr yn gallu dod at ei gilydd ar un safle ym mis Mai 2018. Fe wnaethom ffarwelio â'n Prif Weithredwr, Michael Owen ym mis Ebrill 2019, a chroesawu Michelle Reid, ein Prif Weithredwr newydd. Un o dasgau allweddol 2019/20 fydd adolygu'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar gynlluniau i ddatblygu mwy o gartrefi newydd yn ystod 2019/20.

Datganiad Gwerth am Arian

Mae CCM yn cyhoeddi Datganiad Gwerth am Arian bob blwyddyn. Y Corff Democrataidd sy'n arwain ar gyflawni ein Strategaeth Gwerth am Arian (Yfory Cryf). Ar ôl ymgynghori â'r Aelodau, cytunodd y Corff Democrataidd â'n 7 Rheol Bwysig ar gyfer Gwerth am Arian, sy'n sicrhau ein bod ni'n mesur ein heffaith ar y gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Mae'r Corff Democrataidd

wedi cymeradwyo Datganiad Gwerth am Arian 2018/19 ar ran yr Aelodau, gan ddod i'r casgliad fod CCM wedi darparu Gwerth am Arian yn 2018/19.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) 2018/19

Adroddodd Cartrefi Cymoedd Merthyr ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol ar gyfer 2018/19.

KPI	Targed 2018/19	Gwirioneddol 2018/19	Gwirioneddol 2017/18
Ôl-ddyledion Tenantiaid Presennol	2.50%	2.41%	2.78%
Canran Colli Rhent ar Gartrefi Gwag	1.50%	1.07%	0.98%
Amser Cyfartalog a gymerwyd i Gwblhau Gwaith Atgyweirio mewn Argyfwng (mewn diwrnodau gwaith)	0.5	0.14	0.19
Amser Cyfartalog a gymerwyd i Gwblhau Gwaith Atgyweirio Brys (mewn diwrnodau gwaith)	3	1.79	1.77
Amser Cyfartalog a gymerwyd i Gwblhau Gwaith Atgyweirio Arferol (mewn diwrnodau gwaith)	28	20.76	22.72
Canran yr Eiddo sydd â Chofnod Diogelwch Nwy Dilys ar gyfer Landlordiaid	100%	99.98%	100%

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Ôl-ddyledion Rhent ar gyfer 2018/19

Mae'r newidiadau o ran diwygio lles wedi parhau i effeithio ar allu tenantiaid i dalu rhent. Mae ein tîm incwm wedi parhau i gefnogi ein tenantiaid i negodi â'r system fudd-daliadau lles, ac mae rhai wedi cyrraedd gwell sefyllfa ariannol o ran gallu talu rhent. Mae ein perfformiad casglu rhent wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac rydym wedi cyflawni'r targed ar gyfer y flwyddyn.

Canran Colli Rhent ar Gartrefi Gwag

Mae colli rhent ar eiddo gwag wedi codi rhywfaint o 0.98% i 1.07% o un flwyddyn i'r llall, ond roedd o fewn y targed ar gyfer y flwyddyn. 29 oedd nifer yr eiddo gwag ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cyfrif am lai nag 1% o'n heiddo. Roedd amser cwblhau wedi gwella o un flwyddyn i'r llall hefyd, o 41.59 diwrnod i 39.21 diwrnod.

Amser Cyfartalog a gymerwyd i Gwblhau Gwaith Atgyweirio mewn Argyfwng

Fe wnaethom lwyddo i gwblhau 99.81% o'r holl waith atgyweirio mewn argyfwng o fewn yr amserlen darged a'r amser cyfartalog a gymerwyd oedd dim ond 0.14 diwrnod gwaith. Mae hyn rhywfaint yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Amser Cyfartalog a gymerwyd i Gwblhau Gwaith Atgyweirio Brys

Fe wnaethom lwyddo i gwblhau 99.51% o'r gwaith o fewn amser targed, a hynny ar gyfartaledd o 1.79 diwrnod gwaith yn 2018/19, o gymharu â 99.03% o'r gwaith ar gyfartaledd o 1.76 diwrnod gwaith yn 2017/18. Mae'r amser cyfartalog a gymerwyd wedi gwella o un flwyddyn i'r llall ac mae o fewn y targed.

Amser Cyfartalog a gymerwyd i Gwblhau Gwaith Atgyweirio Arferol

Fe wnaethom lwyddo i gwblhau 86.34% o'r gwaith atgyweirio arferol o fewn amser targed, a hynny ar gyfartaledd o 20.76 diwrnod gwaith, o gymharu â 89.63% o'r gwaith ar gyfartaledd o 22.72 diwrnod yn 2017/18. Rydym bellach yn debycach i gyfartaledd y sector a'n targed o 28 diwrnod.

Canran yr eiddo sydd â chofnod diogelwch nwy dilys ar gyfer landlordiaid

Fe wnaethom lwyddo i gyrraedd 100% ar gyfer 11 mis cyntaf y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd un eiddo heb dystysgrif CP12 ddilys, ac nid oeddem yn gallu cael mynediad i'r eiddo, ond mae hyn wedi'i gywiro bellach.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Dangosyddion Gwerth am Arian y Sector Tai

Mae deg dangosydd Gwerth am Arian ariannol wedi'u nodi yn y Cyfrifon Cynhwysfawr, ac mae modd eu gweld ar lefel Cymru gyfan. Maent yn galluogi sefydliadau unigol i gymharu eu hunain â chymdeithasau tai eraill. Dyma ein perfformiad yn ôl y dangosyddion hynny:

Dangosydd Gwerth am Arian	Gwirioneddol 2018/19	Gwirioneddol 2017/18	Cyfartaledd y Sector 2017/18
Costau gweithredu ar gyfer gosod fesul uned tai cymdeithasol	£3,186	£3,003	£3,186
Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol	£964	£869	£1,217
Costau atgyweirio ymatebol fesul uned tai cymdeithasol	£1,550	£1,433	£1,113
Gwaith atgyweirio mawr a chostau cydrannau fesul uned tai cymdeithasol	£1,262	£1,288	£970
Cyfanswm rhent fesul uned tai cymdeithasol	£4,802	£4,496	£5,294
Drwgddyledion fesul uned tai cymdeithasol	£25	£31	£32
Ôl-ddyledion Gros/Trosiant Tai Cymdeithasol	5%	5.2%	4.5%
Colledion rhent ar unedau gwag fesul uned tai cymdeithasol	£48	£41	£79
Cost gyfartalog gymhwysol cyfalaf	7.7%	7.7%	4.6%
Llif arian rhydd (cyn tynnu i lawr neu ad-dalu benthychiadau) fesul uned tai cymdeithasol	£729,000	£-224,000	£383,000

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Costau gweithredu ar gyfer gosod fesul uned tai cymdeithasol – mae hyn yn dangos y cynnydd mewn costau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r llwyth o waith atgyweirio a oedd yn aros i'w wneud.

Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol – er bod ein costau wedi cynyddu rhywfaint o gymharu â'r llynedd, maent yn dal i fod yn is na chyfartaledd y sector. Dylai'r rhain ostwng yn y dyfodol, ar ôl i'n gorbenion ostwng o ganlyniad i symud i'n Prif Swyddfa newydd yn 2018/19.

Costau atgyweirio ymatebol fesul uned tai cymdeithasol – mae ein costau atgyweirio ymatebol wedi cynyddu ac maent yn uwch na chyfartaledd y sector oherwydd y llwyth o waith atgyweirio a oedd yn aros i'w wneud yn ystod y blynyddoedd blaenorol, fel y nodwyd uchod.

Gwaith atgyweirio mawr a chostau cydrannau fesul uned tai cymdeithasol – er ein bod ni'n uwch na chyfartaledd y sector, mae ein cost fesul uned wedi gostwng fymryn o un flwyddyn i'r llall, yn unol â'n rhaglen fuddsoddi. Rydym yn disgwyl i'n costau fod yn uwch na'r costau cyfartalog ar gyfer y mesur hwn oherwydd oed ein stoc.

Cyfanswm rhent fesul uned tai cymdeithasol oedd £4,802. Roedd hyn yn is na chyfartaledd y sector y llynedd. Ond, nid yw hyn yn syndod, oherwydd mae'r rhent a argymhellir ar gyfer Merthyr Tudful yn un o'r isaf yng Nghymru, ond mae'n well na'r flwyddyn flaenorol.

Drwgddyledion fesul uned tai cymdeithasol – mae ein perfformiad wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dda o ystyried y pwysau y mae ein tenantiaid yn eu hwynebu yn dilyn y newidiadau i fudd-daliadau lles.

Ôl-ddyledion gros fel canran o'r trosiant – mae hyn yn dangos rhywfaint o welliant mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos bod ein penderfyniad i gynyddu nifer y gweithwyr yn y Tîm Casglu Incwm wedi bod yn fuddiol. Bydd y pwysau

ar ein tenantiaid yn parhau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth i'r rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai newid i Gredyd Cynhwysol.

Colledion rhent ar unedau gwag fesul uned tai cymdeithasol – rydym wedi gweld cynnydd yn y colledion ar unedau gwag, ond mae ein perfformiad yn dal i fod yn well na chyfartaledd y sector y llynedd.

Cost gyfartalog gymhwysol cyfalaf – mae ein canran yn uchel o gymharu â chyfartaledd y sector, oherwydd rydym wedi cael ein cloi mewn cytundeb cyfradd llog sefydlog pris uwch ar ôl ymrwymo i'r cytundeb hwn yn dilyn argyfwng ariannol 2007/08.

Llif arian rhydd – mae hwn yn dangos a yw busnes yn cynhyrchu digon o arian i dalu am ei wariant rheoli a chynnal a chadw o ddydd i ddydd, taliadau llog a thalu am gydrannau newydd (fel ceginau ac ystafelloedd ymolchi). Dyma'r flwyddyn gyntaf ers trosglwyddo lle mae ein llif arian rhydd wedi bod yn gadarnhaol, oherwydd nad oedd angen i ni gael unrhyw fenthyciad yn ystod y flwyddyn.

Rheoli Risg

Mae CCM yn wynebu ystod eang o risgiau busnes. Rydym yn defnyddio ein Polisi a'n Strategaeth Rheoli Risg i reoli a lliniaru'r risgiau hyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am reoli risg yn gyffredinol, ac mae'n derbyn adroddiad ar risg ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o fonitro risg i'r Pwyllgor Archwilio.

Y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yw'r fframwaith ar gyfer rheoli risgiau strategol, a allai effeithio ar sut rydym yn cyflawni ein hamcanion Corfforaethol. Mae Risgiau Sector Gyfan Llywodraeth Cymru wedi cael eu hystyried a'u cynnwys, pan fo hynny'n briodol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn adolygu risg bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro pa mor dda y rheolir risg ym mhob un o'u cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor hefyd yn penderfynu beth yw'r archwaeth risg ar gyfer pob risg strategol. Pan fydd risg strategol yn cael ei hadolygu; os nad

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

yw o fewn ein harchwaeth risg, bydd camau'n cael eu cymryd naill ai i roi rhagor o fesurau rheoli a lliniaru ar waith, neu i ofyn am fwy o sicrwydd fod y mesurau rheoli a nodwyd yn gweithio'n effeithiol. Mae ein archwilyr mewnol yn adolygu ein prosesau rheoli risg bob blwyddyn.

Dyma ein chwe phrif risg:-

1. Diwygio Budd-daliadau Lles.
2. Dirywiad yn y gymuned/galw isel am dai.
3. Hawliadau atebolrwydd yswiriant posibl.
4. Gwahaniaeth rhwng costau ac incwm.
5. Diogelu Data.
6. Brexit.

Mae effaith uniongyrchol Brexit ar ein busnes yn is nag ar gyfer nifer o sectorau eraill. Mae modd rheoli'r rhan fwyaf o'r materion, fel risg i'r gadwyn gyflenwi a chyflogaeth uniongyrchol. Ond, y digwyddiadau economaidd ehangach fydd bron yn sicr yn cael effaith ar ein heconomi yma ym Merthyr Tudful, sydd eisoes yn fregus. A ninnau'n sefydliad sy'n buddsoddi yn ein cymuned ac sy'n ei chynnal, mae'n anodd rhagweld yn union, ond bydd unrhyw ddirywiad yn yr economi neu mwy o gyni yn arwain at oblygiadau sylweddol i'n cymuned ac i Gartrefi Cymoedd Merthyr.

Rheoli'r Trysorlys

Mae gan CCM Bolisi Rheoli'r Trysorlys sy'n ategu Strategaeth flynyddol Rheoli'r Trysorlys ac sy'n seiliedig ar bedwar prif egwyddor:-

- Cydymffurfio â statud, rheoliadau ac arferion gorau.
- Sicrwydd asedau ariannol.
- Hylifedd.
- Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd o ran defnyddio adnoddau ariannol a sicrhau gwerth am arian.

Mae ein hymgyngorwyr allanol, Link Asset Services, yn adolygu ac yn diweddarau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo hyn bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar berfformiad rheoli'r trysorlys.

Rheoli risgiau ariannol

Mae gweithgareddau CCM yn ei amlygu i nifer o risgiau ariannol, hynny yw, risg o ran hylifedd, llif arian a chredyd.

Risg hylifedd

Mae CCM yn defnyddio cyfuniad o gyllid i ariannu dyledion tymor hir a thymor byr i gynnal hylifedd, gan sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer gweithrediadau parhaus a datblygiadau yn y dyfodol. Mae CCM yn cadw arian parod, buddsoddiadau tymor byr ac mae ganddo fynediad at grantiau a chyfleuster benthyciadau gwerth £40m.

Mae CCM yn cael cyllid cyfalaf gan ddwy brif ffynhonnell:-

1. Cyfleuster benthyciadau gwerth £40m gan Royal Bank of Scotland (RBS) a Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae'n cynnwys £32m gan RBS a £8m gan Principality BS ac mae'r cyfanswm yn cael ei rannu'n ddwy Gyfran, A a B. Mae Cyfran A yn darparu £24m ac mae'r swm wedi'i dynnu'n llawn, ac mae Cyfran B yn darparu £16m. Mae Cyfran B yn gyfleuster sy'n cylchdroi ac mae'n cael ei darparu gan RBS yn unig. Mae hyn yn golygu bod modd tynnu'r arian i lawr a'i ad-dalu. Bydd Cyfran B yn newid i fod yn fenthyciad "tymor" o 31 Mawrth 2023. Mae pob swm sydd wedi'i fenthycia hyd yma wedi'i dynnu o Gyfran A, felly nid oes modd ei ad-dalu nes byddwn wedi cyrraedd uchafswm ein dyled. Ar 31 Mawrth 2019, roeddem wedi benthycia £24m o hyd, ac nid oedd unrhyw fenthyciadau wedi'u tynnu i lawr yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r incwm ychwanegol a gafwyd yn sgil gwerthu tai Hawl i Brynu yn ystod y flwyddyn ac arbedion yn y rhaglen Gyfalaf. Mae gofyn i ni ad-dalu'r cyfleuster benthyciad erbyn 31 Mawrth 2034, ond yn ôl ein rhagolygon diweddaraf, byddwn yn ei ad-dalu erbyn 31 Mawrth 2030. Disgwylir y byddwn yn cyrraedd uchafswm ein dyled yn 2021/22.
2. Cyllid Llenwi Bwlch Gwaddoli o £2.9m gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w gael bob blwyddyn. Mae disgwyl y byddwn yn parhau i'w dderbyn tan 2036/37.

Adroddiad Strategol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Yn 2014 fe gawsom fenthyciad o £510,000 am 25 mlynedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfradd llog cynhwysfawr o 2.92%. £428,000 oedd y balans a oedd yn ddyledus ar gyfer y benthyciad hwn ar 31 Mawrth 2019. Bydd y benthyciad hwn yn cael ei ad-dalu drwy gyfrwng cytundeb prydles tymor hir â Chydweithrediaeth Dai Taf Fechan.

Risg llif arian

Trefnwyd tri chytundeb cyfradd sefydlog yn y dyfodol wrth drosglwyddo er mwyn gwarchod rhan symudiadau niweidiol mewn cyfraddau llog. Mae dau o'r rhain wedi cael eu rhoi ar waith, a bydd y cytundeb cyfradd sefydlog yn y dyfodol olaf yn dod ar waith ar 1 Ebrill 2020. Mae'r benthyciadau a dynnwyd i lawr ar 31 Mawrth 2019, sy'n dod i gyfanswm o £24m yn cynnwys £20m ar gyfraddau llog sefydlog a £4m ar gyfraddau amrywiadwy.

Mae ein Polisi a'n Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cyflwyno paramedrau ar gyfer cymhareb benthyciadau cyfradd sefydlog i amrywiadwy o rhwng 60 ac 80% ar gyfraddau sefydlog er mwyn i ni gael sicrwydd ynghylch ein costau. Ar 31 Mawrth 2019, roedd cymhareb y benthyciadau cyfradd sefydlog i amrywiadwy yn 84% o gyfanswm y benthyciadau a oedd heb eu casglu. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r gwyro hyn o'r polisi ar ddiwedd mis Mawrth 2019.

Risg credyd

Balansau banc ac arian parod, ôl-ddyledion rhent a symiau derbyniadwy a buddsoddiadau eraill yw prif asedau ariannol CCM.

Mae ein risg credyd wedi'i briodoli'n bennaf i ôl-ddyledion rhent. Nid yw'r symiau a gyflwynir yn y Datganiad hwn o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys lwfansau ar gyfer drwgddyledion. Mae risg credyd ein buddsoddiadau yn gyfyngedig oherwydd banciau â statws credyd sy'n unol â'n Polisi Rheoli'r Trysorlys yw ein partion yn y contract.

Prif Bolisiau Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu wedi'u cyflwyno yn Nodyn 2 ar y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 28-36.

Busnes Byw

Mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol fod gan CCM ddigon o adnoddau i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn, mae'n dal i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

Mae gan CCM Bolisi Defnyddio Derbyniadau Cyfalaf sy'n nodi sut a phryd y ceir defnyddio derbyniadau cyfalaf. Y flaenoriaeth ar gyfer defnyddio derbyniadau cyfalaf yw er mwyn:

- Rheoli llif arian
- Cynyddu gwariant cyfalaf ar ail-fuddsoddi mewn stoc
- Prynu eiddo drwy gynllun trefniant prynu'n ôl wedi'i dargedu
- Cynlluniau datblygu cyllid, gyda'r Cyllidwyr yn cymeradwyo hynny.

Bydd unrhyw gronfeydd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cadw a'u dwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Ni fyddwn yn gallu ad-dalu ein benthyciadau nes byddwn wedi cyrraedd uchafswm ein dyledion.



Nicola Evans - Cadeirydd y Bwrdd
Dyddiad: 12 Medi 2019

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Mae aelodau'r Bwrdd yn falch o gyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (CCM) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Prif Weithgareddau

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr (CCM) wedi cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n sefydliad cydfuddiannol dim-er-elw sy'n cael ei weinyddu gan Fwrdd gwirfoddol. Mae CCM yn gweithredu yn ardal awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Rheoli a gwella tai cymdeithasol yw prif weithgareddau CCM.

Perfformiad am y Flwyddyn

Mae'r Bwrdd yn adrodd ar warged o £3.178m. Yn ystod y flwyddyn, gwariodd CCM £14.049m ar waith atgyweirio ymatebol, unedau gwag a chylchol a'r rhaglen gyfalaf. Cafodd hyn ei ariannu'n fewnol, hynny yw, incwm rhent; incwm o werthu asedau; Cyllid Llenwi Bwlch Gwaddoli a grantiau eraill.

Yr Asedau Net ar 31 Mawrth 2019 oedd £21.599m. Roedd cronfa gyfyngedig wrth gefn Ased y Gronfa Bensiwn yn £4.619m ar 31 Mawrth 2019.

Llywodraethu

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am reoli busnes CCM. Rhestrir aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Swyddogion ar dudalen 2, o dan y Manylion Gweinyddol. Mae Aelodau'r Bwrdd wedi bod yn eu swyddi yn ystod 2018/19 oni nodir yn wahanol.

Newidiodd ein strwythur cyfreithiol ar 1 Mai 2016, a daeth CCM i fod y gymdeithas dai gydfuddiannol gyntaf i denantiaid a

gweithwyr yng Nghymru. Roedd hynny'n golygu bod tenantiaid a gweithwyr yn cael bod yn aelodau. O ran llywodraethu, mae dwy haen i'r cwmni cydfuddiannol:

- Corff Democrataidd sy'n cynnwys 21 o gynrychiolwyr sy'n aelodau:
 - a) Cynrychiolwyr tenantiaid sydd wedi'u hethol gan denantiaid sy'n aelodau;
 - b) Cynrychiolwyr gweithwyr sydd wedi'u hethol gan weithwyr sy'n aelodau;
 - c) Cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
 - d) Mae'r Rheolau hefyd yn caniatáu i'r Corff Democrataidd benodi Cadeirydd annibynnol os oes angen.
- Bwrdd o 8 Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiadau perthnasol, sydd wedi'u penodi gan y Corff Democrataidd i redeg y cwmni cydfuddiannol ar ei ran.

Roedd un swydd wag yn y Corff Democrataidd ar 31 Mawrth 2019.

Mae meysydd cyfrifoldeb allweddol wedi'u nodi yn y Fframwaith Llywodraethu a'r Rheolau ar gyfer pob un o ddwy ran y strwythur llywodraethu.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyfreithiol dros reoli busnes y cwmni cydfuddiannol yn gyffredinol. Y Corff Democrataidd sy'n gyfrifol am gynrychioli aelodau a buddiannau ehangach y gymuned drwy gytuno ar fframwaith strategol i'r Bwrdd weithredu oddi mewn iddo a drwy ddal y Cyfarwyddwyr

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Anweithredol i gyfrif. Hefyd, mae gan CCM Bwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd ac o'r Corff Democrataidd.

Nid oes gan yr Uwch Swyddogion Gweithredol unrhyw statws cyfreithiol fel cyfarwyddwyr, er eu bod yn gweithio fel swyddogion gweithredol o fewn yr awdurdod a ddirprwyir gan y Bwrdd. Mae gan CCM bolisiau yswiriant sy'n indemnio Aelodau'r Bwrdd ac Uwch Swyddogion Gweithredol rhag atebolrwydd pan fyddant yn gweithredu ar ran y cwmni cydfuddiannol.

Corff Democrataidd

Mae'r Corff Democrataidd yn rhan o strwythur llywodraethu CCM ynghyd â'r Bwrdd a'i gorff etholedig sy'n cynrychioli aelodau a'r gymuned ehangach ym mhroses benderfynu CCM.

Cyfarfu'r Corff Democrataidd chwe gwaith yn ystod 2018/19 a chynhaliodd un sesiwn ar y cyd â'r Bwrdd. Mae cyfrifoldebau'r Corff Democrataidd yn cynnwys;

- Penodi a diddymu Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill.
- Gweithio gyda Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr i ddatblygu Cynllun Busnes y cwmni cydfuddiannol a'u cefnogi wrth wneud hynny.
- Cymeradwyo cynllun corfforaethol, fframwaith polisi a rhaglen archwilio mewnol y cwmni cydfuddiannol.
- Monitro perfformiad y cwmni cydfuddiannol a Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unol â'r strategaeth gorfforaethol.

Yn ystod 2018/19, fe wnaeth y Corff Democrataidd y canlynol:

- Ysgwyddo rôl allweddol wrth benodi'r Prif Weithredwr a dau Gyfarwyddwr Anweithredol.
- Ethol cynrychiolwyr ar y Gweithgor i

oruchwylio'r broses o newid Rheolau'r cwmni cydfuddiannol.

- Cytuno â'n saith Rheol Bwysig ar gyfer Gwerth am Arian.
- Cymryd rhan mewn grwpiau ffocws i helpu i sicrhau achrediad Ansawdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (QED) a gawsom ym mis Mai 2019.
- Cymryd rhan yn y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2019/20.
- Cymeradwyo cynllun Archwilio Mewnol 2019/20
- Helpu i ddatblygu'r Strategaeth Gyfathrebu.

Mae rhestr lawn o swyddogaethau'r Corff Democrataidd ar gael yn rheolau CCM yn www.mvhomes.org.uk

Aelodaeth CCM

Mae'r aelodau wedi cael eu gwahanu'n ddwy etholaeth: tenantiaid a gweithwyr. Mae aelodau'n cael mynediad at wybodaeth, yn cael llais yn y cwmni cydfuddiannol ac yn cael cyfle i gyflawni rôl gynrychioliadol yn y broses o lywodraethu'r cwmni.

Aelodau	Nifer	%
Tenantiaid	1144	86.6%
Gweithwyr	177	13.4%

Gweithwyr

Roedd 197 o weithwyr ar 31 Mawrth 2019. Mae ein gallu i fodloni ein hamcanion a'n hymrwymadau i denantiaid mewn ffordd effeithlon ac effeithiol yn dibynnu ar gyfraniad pob un o'n gweithwyr. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth, ac rydym wedi ymrwymo i gryfhau cydlyniant cymunedol a darparu cyfle cyfartal o ran cyflogaeth drwy gadw at ein Polisi Cyfle Cyfartal.

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Rhoddion i Elusennau

Cyfrannodd CCM £44,441 i elusennau yn ystod y flwyddyn. Roedd y Panel Grantiau a Nawdd wedi cymeradwyo'r rhoddion hyn. Roedd hyn yn cynnwys y grantiau canlynol:

	£
Grŵp Cymunedol Pontsticill	3,440
Clwb Ieuenctid Forsythia	1,816
Clwb Phab Merthyr Tudful	665
Cymdeithas Rhandiroedd Royal Crescent	1,411
Prosiect Dynion Gurnos	4,388
Tŷ Hafan	750
Cymdeithas MS Rhondda Cynon Taf	500
Cynghrair Genetig Y DU	250
Cymorth Cancer Merthyr Tudful	1,000
Ysbyty Plant Noah's Ark	625
Shelter Cymru	500
Hoci Merched Dowlais	500
Sefydliad Gellideg	12,080
Cymdeithas Alzheimers Cymru	1,000
Bugeiliaid Stryd Preswylwyr Sant Tudful	500
Clwb Pêl-Droed Cymunedol Heolgerrig Red Lion	2,224
Clwb Ieuenctid Willows	3,420
Cymdeithas Lles Taf Bargoed	652
Mind Merthyr A'r Cymoedd	5,000
Camau'r Cymoedd	500
Llamau	860
Cymdeithas Syndrom Down	500
Banc Bwyd Merthyr Cynon	1,500
Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Barnardo's	360

Datganiad Rheolaeth Fewnol

Yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru RSL 02/10, Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau, mae'r Bwrdd yn cydnabod ei gyfrifoldebau dros y systemau rheolaeth fewnol a dros adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros agweddau ehangach risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol CCM yn barhaus, ac mae'n sicrhau bod pob cam angenrheidiol wedi'i gymryd i wneud iawn am unrhyw wendidau neu fethiannau sylweddol y gellid eu nodi.

Mae systemau'r cwmni cydfuddiannol wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol, ond ddim sicrwydd llwyr, o ran:-

- Diogelu asedau.
- Cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol.
- Dibynadwyedd gwybodaeth ariannol.
- Rheoli risgiau a allai gael effaith andwyol ar allu'r cwmni cydfuddiannol i gyflawni ei amcanion corfforaethol (Yfory).

Mae'r dulliau canlynol yn cynnwys elfennau allweddol y fframwaith. Y rheolwyr sydd wedi'u dylunio a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau rheolaeth fewnol effeithiol:-

- Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol sy'n pennu'r Cynllun Dirprwyo.
- Rheolau Sefydlog Contractau sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau.
- Strwythurau adrodd a chyfrifoldebau rheoli corfforaethol ac adrannol sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Aelodau staff gyda'r profiad a'r cymwysterau priodol.
- Polisiâu a gweithdrefnau ffurfiol y mae'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd wedi'u mabwysiadu ac y mae'r staff yn eu deall.
- Systemau adroddiadau ariannol cynhwysfawr, gan gynnwys adroddiadau

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

ar gyllidebau blynyddol a chyfrifon rheoli chwarterol i'r Bwrdd, sy'n nodi'r gwir berfformiad yn unol â'r gyllideb.

- Monitro cyfamodau benthyciadau yn rheolaidd.
- Fframwaith Rheoli Risg sy'n cael ei hadolygu a'i gwerthuso'n rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Amrywiaeth o bolisiau gwrth-dwyll, gan gynnwys atal llwgrwobrwyo ac atal gwyngalchu arian, y mae'r staff yn eu deall. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal ac yn adolygu Cofrestr Twyll ym mhob cyfarfod.
- Contractau mawr a allai beri risg i'r sefydliad yn cael eu hawdurdodi gan y Bwrdd.
- Gwasanaeth archwilio mewnol cadarn sy'n adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd.
- Cynllun busnes ariannol tri deg mlynedd sy'n cael ei ddiweddarau a'i gymeradwyo bob blwyddyn, ac sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio ariannol yn y tymor canolog.
- Strategaeth Gaffael sy'n pennu sut bydd CCM yn cynnal gweithgareddau caffael.
- Ffurflenni Datganiadau Budd blynyddol gan bob aelod o'r Bwrdd, bob cynrychiolydd o'r Corff Democrataidd a phob aelod o staff.
- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch a adolygir gan y Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod.
- Mae Cofrestr Atodlen 1 yn cael ei chynnal ac mae Ysgrifennydd y Cwmni yn adrodd ar bob cofnod i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol CCM yn ystod y flwyddyn. Ni chafodd unrhyw wendidau eu canfod a oedd yn arwain at hapddigwyddiadau, ansicrwydd na cholledion sylweddol y mae gofyn eu datgan yn y datganiadau ariannol neu yn Adroddiad yr Archwiliwr, ac nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw wendidau o'r fath ers 1 Ebrill 2019 hyd yma.

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol. Mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a deddfwriaeth Cymdeithasau Tai yn mynnu bod y Bwrdd yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y ddeddfwriaeth, mae'r Bwrdd wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol, yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol) - FRS102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

O dan ddeddfwriaeth Cymdeithasau Tai, ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai ei fod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa CCM, ac o warged neu ddiffyg CCM ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n rhaid i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus.
- Datgan a yw'r Safonau Cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y Datganiadau Ariannol.
- Paratoi'r Datganiadau Ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd CCM yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac

Adroddiad y Bwrdd

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

egluro trafodiadau CCM a datgelu sefyllfa ariannol CCM yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cymdeithasau Tai. Aelodau'r Bwrdd hefyd sy'n gyfrifol am ddiogelu asedau CCM ac, felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondeb arall.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y CCM, ac am gywirdeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Darparu gwybodaeth i'r Archwilydd

Mae pob un o Aelodau'r Bwrdd, ar ddyddiad yr adroddiad hwn, wedi cadarnhau'r canlynol:

- Nad oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y cwmni cydfuddiannol yn ymwybodol ohoni, hyd y gŵyr Aelodau'r Bwrdd.
- Mae Aelodau'r Bwrdd wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd yn rhinwedd eu rôl fel Aelodau'r Bwrdd, i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwiliwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau ar 12 Medi 2019 yng Clwb Pêl-droed Tref Merthyr. Bydd Datganiadau Ariannol 2018/19 CCM yn cael eu cyflwyno er mwyn eu mabwysiadu yn y cyfarfod hwn.

Archwilydd

Pasiodd y Corff Democrataidd benderfyniad i ailbenodi Mazars LLP ar 5 Medi 2019.



Trwy orchymyn y Bwrdd
Nicola Evans
Cadeirydd y Bwrdd
Dyddiad: 12 Medi 2019

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (y 'gymdeithas') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o fusnes y gymdeithas ar 31 Mawrth 2019, ac o'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015.

Sail y farn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y

safonau hynny eu disgrifio ymhellach o dan adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad ar ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer ein barn.

Effaith ansicrwydd ar ein harchwiliad wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd

Datgelir barn ein Cyfarwyddwyr ynghylch Brexit ar dudalen 11.

Nid yw'n glir ar ba delerau y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd eto, felly nid yw'n bosibl gwerthuso'r holl oblygiadau posibl ar hyn o bryd i fasnach, cwsmeriaid a chyflenwyr y Cwmni, nac i'r economi ehangach.

Wrth ystyried effaith Brexit ar y Cwmni fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio, defnyddiwyd dull safonol a oedd yn edrych ar y cwmni yn ei gyfanrwydd i ymateb i'r ansicrwydd wrth asesu perfformiad y Cwmni a'i ragolygon.

Fodd bynnag, ni ellir disgwyl i unrhyw archwiliad allu darogan ffactorau nad oes posibl gwybod beth ydynt na beth yw'r holl oblygiadau posibl i Gwmni, ac mae hyn yn arbennig o wir am Brexit.

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Casgliadau'n ymwneud â busnes byw

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae ISAs (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi adroddiad i chi:

- os nad yw defnydd y Bwrdd o sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r Bwrdd wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd a allai achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r gymdeithas i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pryd yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Strategol ac yn Adroddiad y Bwrdd, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Rydym wedi adolygu datganiad y Bwrdd ar gydymffurfiaid y gymdeithas â chylchlythyr RSL 02/10 Llywodraeth Cymru 'Rheolaethau mewnol ac adroddiadau'. Nid oes raid i ni fynegi barn am effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y gymdeithas.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny,

ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu yn ymddangos fel camddatganiad sylweddol fel arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath, neu gamddatganiadau perthnasol tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall. Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Barn ar faterion eraill a bennir gan gylchlythyr 02/10 RSL Llywodraeth Cymru 'Rheolaethau mewnol ac adroddiadau'

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad, mewn cysylltiad â datganiad y Bwrdd ar reolaeth fewnol:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan gylchlythyr 02/10 RSL Llywodraeth Cymru 'Rheolaethau mewnol ac adroddiadau'; ac
- nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth a ddatgelwyd gennym yn ystod ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion a ganlyn lle mae'n ofynnol i ni dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 roi adroddiad i chi yn eu

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

.....

cylch os, yn ein barn ni:

- nad yw'r gymdeithas wedi cadw llyfrau cyfrifon priodol; neu
- nad oes system reolaeth foddhaol dros drafodion wedi cael ei chynnal; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y Datganiad o gyfrifoldebau a nodwyd ar dudalen 18, mae aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am ba reolaeth fewnol ag a bennir yn ofynnol gan y Bwrdd i alluogi paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r gymdeithas i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni fo'r Bwrdd un ai'n bwriadu diddymu'r gymdeithas neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd

rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

Defnyddio'r adroddiad archwilio

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i aelodau'r gymdeithas fel corff yn unig, yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a Phennod 4 Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r holl raddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb, ac eithrio i'r gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mazars LLP

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilydd Statudol
45 Church Street
Birmingham
B3 2RT

Mazars LLP
12 September 2019

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

	Nodiadau	2019 £'000	2018 £'000
Trosiant	4	20,203	19,022
Gwariant gweithredu	4	(16,976)	(16,091)
Gwarged Gweithredu	5	3,227	2,931
Gwarged ar waredu eiddo, offer a chyfarpar	6	1,694	814
Llog sydd i'w dderbyn	7	135	112
Costau cyllido a llog	8	(1,878)	(1,872)
Newidiadau o ran gwerth teg eiddo buddsoddi	15	-	(19)
Gwarged cyn treth		3,178	1,966
Trethiant	2(n)	-	-
Gwarged am y flwyddyn		3,178	1,966
Incwm Cynhwysfawr Arall			
Enillion actiwaraid ar gynlluniau pensiwn	31	2,667	809
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		5,845	2,775

Gweithrediadau sy'n Parhau

Mae'r holl drafodiadau yn ystod y cyfnod yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2019

	Nodiadau	2019 £'000	2018 £'000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	11	738	828
Eiddo, Offer a Chyfarpar			
– Eiddo sy'n dai	12	58,401	57,219
– Eiddo, offer a chyfarpar eraill	14	5,199	5,051
Eiddo buddsoddi	15	878	878
		<u>65,216</u>	<u>63,976</u>
Asedau cyfredol			
Rhestrau o'r hyn sydd ar gael	16	19	12
Dyledwyr			
– Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	1,588	1,346
– Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn	18	55,616	61,281
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	27	6,168	1,654
		<u>63,391</u>	<u>64,293</u>
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	19	(3,300)	(3,517)
Cyllid gwaddoli a grantiau eraill gan y llywodraeth:			
symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	22	(1,730)	(1,537)
Asedau cyfredol net ac eithrio asedau pensiwn		58,361	59,239
Asedau pensiwn	31	4,619	3,545
Asedau cyfredol net, gan gynnwys asedau pensiwn		<u>62,980</u>	<u>62,784</u>
Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol		128,196	126,760
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	20	(24,477)	(24,473)
Cyllid gwaddoli a grantiau eraill gan y llywodraeth:			
symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	22	(26,459)	(25,084)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	29	(55,661)	(61,449)
Asedau Net		<u>21,599</u>	<u>15,754</u>
Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn			
Cyfalaf cyfrannau	23	-	-
Cronfeydd refeniw wrth gefn		16,980	12,209
Cronfeydd cyfyngedig wrth gefn	24	4,619	3,545
		<u>21,599</u>	<u>15,754</u>

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 24 i 58 i'w cyhoeddi gan y Bwrdd ar 12 Medi 2019, ac fe'u llofnodir ar ei ran gan:



(Cadeirydd y Bwrdd)
(Nicola Evans)



(Is-gadeirydd y Bwrdd)
(Elizabeth Lendering)



(Ysgrifennydd y Cwmni)
(Allison Soroko)

Datganiad o'r Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

	Nodiadau	Cronfeydd Refeniw £'000	Cronfeydd Cyfyngedig wrth gefn £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2017		9,213	3,766	12,979
Gwarged am y flwyddyn		1,966	-	1,966
<u>Incwm cynhwysfawr arall</u>	31			
Enillion actiwaraid ar gynlluniau pensiwn		-	809	809
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr		11,179	4,575	15,754
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	24	1,030	(1,030)	-
Ar 31 Mawrth 2018		12,209	3,545	15,754

	Nodiadau	Cronfeydd Refeniw £'000	Cronfeydd Cyfyngedig wrth gefn £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2018		12,209	3,545	15,754
Gwarged am y flwyddyn		3,178	-	3,178
<u>Incwm cynhwysfawr arall</u>				
Enillion actiwaraid ar gynlluniau pensiwn	31	-	2,667	2,667
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr		15,387	6,212	21,599
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	24	1,593	(1,593)	-
Ar 31 Mawrth 2019		16,980	4,619	21,599

Cronfa Refeniw Wrth Gefn

Mae'r gronfa refeniw wrth gefn yn cynrychioli gwarged a diffyg ariannol cronnus y Gymdeithas.

Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn

Mae'r gronfa Gyfyngedig wrth gefn yn berthnasol i Ased y Gronfa Bensiwn.

Datganiad Llif Arian

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

	Nodiadau	2019 £'000	2018 £'000
Arian net a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol	27	7,504	6,188
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar		(5,699)	(5,055)
Prynu asedau sefydlog eraill		(338)	(3,865)
Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar		1,694	814
Grantiau a dderbyniwyd		3,234	3,374
Llog a dderbyniwyd		38	10
Llifoedd arian net o weithgareddau buddsoddi		(1,071)	(4,722)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		(1,783)	(1,759)
Elfen llog taliadau rhent prydles gyllidol		(37)	(34)
Ad-dalu benthyciadau		(20)	(20)
Elfen gyfalaf taliadau rhent prydles gyllidol		(113)	(94)
Trefniant benthyciad refeniw		34	34
Llifoedd arian net o weithgareddau ariannu		(1,919)	(1,873)
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod		4,514	(407)
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		1,654	2,061
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar diwedd y flwyddyn		6,168	1,654

Llif arian rhydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

	2019 £'000	2016 £'000
Arian net a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol	7,504	6,188
Llog a dalwyd	(1,749)	(1,725)
Llog a dderbyniwyd	38	10
Addasiadau ar gyfer ailfuddsoddi mewn eiddo sy'n bodoli eisoes:		
Cydrannau newydd	(5,699)	(4,908)
Prynu asedau sefydlog newydd eraill	(338)	(3,865)
Grant cydrannau newydd a dderbyniwyd	3,234	3,374
Llif arian rhydd a grëwyd / (ddefnyddiwyd) cyn ad-dalu benthyciadau	2,990	(926)
Benthyciadau a ad-dalwyd (ac eithrio credyd cylchol a gorddrafftiau)	(20)	(20)
Llif arian rhydd a grëwyd / (ddefnyddiwyd) ar ôl ad-dalu benthyciadau	2,970	(946)

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

1) a) Gwybodaeth gyffredinol

Mae datganiadau ariannol Cartrefi Cymoedd Merthyr Cyfyngedig (CCM) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 yn cynnwys Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Llifoedd Arian a nodiadau perthnasol. Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling (£).

b) Gwybodaeth am y cwmni

Mae CCM wedi cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi cofrestru â Llywodraeth Cymru. Mae CCM wedi mabwysiadu rheolau elusennol. Mae CCM yn gorfforedig yn y Deyrnas Unedig. Mae swyddfa gofrestredig CCM yn: Tŷ Brychan, 22 Heol Lansbury, Gellideg, Merthyr Tudful, CF48 1HA.

Mae CCM yn berchen ar 4,103 o gartrefi rhent, yn eu rheoli ac yn eu cynnal a chadw, gan gynnwys 206 o unedau llety gwarchod ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Hefyd, mae CCM yn rheoli neu'n berchen ar 607 garej, 39 uned manwerthu, bloc o 12 o fflatiau tai cydweithredol sy'n cael eu gosod ar brydles i Gydweithrediaeth Dai Taf Fechan Cyf a 278 eiddo prydles.

2) Polisiâu Cyfrifyddu

Ceir crynodeb o'r prif bolisiâu cyfrifyddu isod. Maent wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn flaenorol.

a) Sail y cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol,

ac wedi'u haddasu i gynnwys eitemau penodol am werth teg, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac maent yn cydymffurfio â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig 2014 (SORP), Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015. Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn endid budd cyhoeddus, fel y diffinnir yn FRS 102 ac mae'n cymhwyso'r paragraffau perthnasol sy'n cynnwys 'PBE' o'u blaen yn FRS 102.

b) Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol eu dynodi ar gostau hanesyddol, llai amorteiddiad cronedig. Darperir amorteiddiad ar bob ased anniriaethol ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu cost pob ased ar sail linol dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Elfen	Oes Economaidd Ragamcanol (blynyddoedd)
Meddalwedd cyfrifiadurol	5-8

c) Eiddo, offer a chyfarpar - eiddo sy'n dai

Ar ôl trosglwyddo'r stoc ar 30 Mawrth 2009, roedd yr eiddo'n werth £dim. Nodir eiddo sy'n dai gan ddefnyddio'r gost a oedd yn berthnasol gan dynnu colledion yn sgil amhariadau a dibrisiant sydd wedi cronni. Mae'r gost yn cynnwys cost prynu tir ac adeiladau, costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol a chostau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o adeiladu eiddo sy'n dai newydd yn ystod y datblygiad. Gall costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

gynnwys costau llafur Tîm Gwasanaethau Cartrefi ac Eiddo mewnol Cartrefi Cymoedd Merthyr, deunyddiau a gorbenion.

Daw cyfalafu i ben pan fydd yr holl weithgareddau sy'n angenrheidiol i gael ased yn barod i'w ddefnyddio wedi'i gwblhau, i raddau helaeth.

Caiff dibrisiant ei godi er mwyn gallu nodi gwerth net ar bapur eiddo sy'n dai yn unol â'u gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, ar sail linol dros eu hoes economaidd ddefnyddiol. Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Nid yw eiddo sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu dibrisio.

Caiff eiddo sydd wedi'u hadeiladu'n draddodiadol eu dibrisio dros 100 mlynedd. Caiff eiddo nad ydynt wedi'u hadeiladu'n draddodiadol eu dibrisio dros 50 mlynedd.

Y prif gydrannau

Ymdrinnir â phrif gydrannau eiddo sy'n dai, a chanddynt batrymau gwahanol iawn o ran defnyddio buddion economaidd, fel asedau ar wahân, a chânt eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig ar y cyfraddau blynyddol a ganlyn:

Cydran	Oes Economaidd Ragamcanol (blynyddoedd)
Toeon	50
Drysau a ffenestri	30
Ceginau	15
Ystafelloedd ymolchi	25
Systemau gwresogi	15
Ailweirio	25
Strwythur Adeiladu (waliau, waliau cynnal, llwybrau, ac ati)	50
Arall	10-15

Caiff eiddo ar brydles hir eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig neu am hyd y brydles, os yw hynny'n llai.

Gwelliannau

Pan ddisgwyllir i welliannau i eiddo sy'n dai arwain at fuddion cynyddrannol yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu cyfalafu a'u hychwanegu at swm cario ymlaen yr eiddo. Bydd unrhyw waith i eiddo sy'n dai nad ydynt yn arwain at gydrannau newydd neu'n arwain at fudd cynyddrannol yn y dyfodol, yn cael ei godi fel gwariant mewn gwarged neu ddiffyg ariannol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Er mwyn gwella perfformiad ased, rhaid i wariant arwain at un neu ragor o'r canlynol:-

- Mwy o incwm rhent.
- Gostyngiad mewn costau cynnal a chadw yn y dyfodol.
- Estyniad sylweddol i oes ddefnyddiol yr eiddo.

Lesddeiliaid

Pan fydd y lesddeiliad neu'r tenant yn gyfrifol am yr hawliau a'r rhwymedigaethau dros wella eiddo sy'n dai, ailgudir tâl am unrhyw waith i wella eiddo o'r fath y talodd CCM amdano ar y lesddeiliad a chaiff ei gydnabod fel gwarged neu ddiffyg ariannol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, yn ogystal â'r incwm cyfatebol gan y lesddeiliad neu'r tenant.

Amseru dibrisiant ar eiddo sy'n dai

Bydd y dibrisiant a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn dechrau yn ystod y mis pan fydd ased yn cael ei gydnabod fel ased wedi'i gwblhau.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

d) Eiddo, offer a chyfarpar nad ydynt yn gysylltiedig â thai

Caiff eiddo, offer a chyfarpar nad ydynt yn gysylltiedig â thai eu nodi ar gostau hanesyddol llai dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Caiff dibrisiant ei ddarparu ar gyfer yr holl eiddo, offer a chyfarpar nad ydynt yn gysylltiedig â thai, heblaw am eiddo buddsoddi a thir rhydd-ddaliadol, ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu'r gost neu'r prisiad, llai amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol ar gyfer pob ased ar sail linol yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Cydran	Oes Economaidd Ragamcanol (blynyddoedd)
Adeiladau swyddfeydd	100
Gwella Swyddfeydd	10
Dodrefn, Gosodiadau a Ffitiadau	10-15
System Ffôn	8
Cyfarpar Swyddfa	5-10
Caledwedd Gweithredu Cyfrifiaduron	5-8
Caledwedd Cyfrifiaduron - Arall	3
Cyfarpar a Dodrefn Cynllun	10-25
Cerbydau Modur	Tymor y lês

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff ased ei adfywio, pan fydd yn hysbys ymlaen llaw y bydd oes economaidd ddefnyddiol yr ased yn gostwng.

Amseru dibrisiant ar eiddo, offer a chyfarpar nad ydynt yn gysylltiedig â thai

Bydd y dibrisiant a godir ar y Datganiad o

Incwm Cynhwysfawr yng nghyswllt ased yn dechrau yn ystod y mis ar ôl caffael yr ased hwnnw.

e) Eiddo buddsoddi

Bydd eiddo'n cael eu dosbarthu'n eiddo buddsoddi neu'n eiddo, offer a chyfarpar yn seiliedig ar ddefnydd bwriadedig yr eiddo dan sylw. Caiff eiddo a ddelir i ennill rhent masnachol neu gynnydd cyfalaf, neu'r ddau, eu dosbarthu'n eiddo buddsoddi. Ymdrinnir ag eiddo a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol neu a ddelir i ddarparu tai cymdeithasol, fel eiddo, offer a chyfarpar. Caiff eiddo defnydd cymysg eu rhannu rhwng eiddo buddsoddi ac eiddo, offer a chyfarpar.

Rhoddir cyfrif am dir ar sail ei ddefnydd bwriadedig. Pan fydd tir yn cael ei gaffael yn hapfasnachol gyda'r bwriad o gynhyrchu elw cyfalaf a/neu elw rhent masnachol, caiff ei gyfrif fel eiddo buddsoddi. Pan fydd tir yn cael ei gaffael i'w ddefnyddio i ddarparu tai cymdeithasol neu er budd cymdeithasol, caiff ei gyfrif fel eiddo, offer a chyfarpar.

Caiff eiddo buddsoddi eu mesur yn ôl gwerth teg bob blwyddyn, a bydd unrhyw newid yn cael ei gydnabod fel gwared neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

f) Amhariad ar eiddo tai cymdeithasol

Nid er mwyn eu mewnlif arian parod yn unig y caiff eiddo a ddelir ar gyfer eu budd cymdeithasol eu dal. Maent yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial o ran gwasanaeth hefyd.

Cynhelir asesiad ar ddyddiad pob adroddiad i weld a oes unrhyw arwydd o amhariad. Os bydd arwydd o'r fath, cynhelir asesiad o amhariad a rhoddir amcangyfrif

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

o swm adenilladwy'r ased. Pan fydd swm cario ymlaen yr ased yn uwch na'r swm adenilladwy, caiff colled amhariadau ei gydnabod fel gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Gellir disgrifio swm adenilladwy ased fel ei werth pan mae'n cael ei ddefnyddio neu ei werth teg gan dynnu'r costau i'w werthu, pa un bynnag yw'r mwyaf. Pan gaiff asedau eu dal ar gyfer eu potensial gwasanaeth, pennir eu gwerth pan fyddant yn cael eu defnyddio yn ôl gwerth presennol potensial yr asedau i barhau mewn gwasanaeth, yn ogystal â'r swm net a ddisgwylyr pan fyddant yn cael eu gwaredu. Defnyddir cost newid dibrisiant fel model mesur addas.

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn chwilio am unrhyw arwydd o amhariad bob blwyddyn drwy gyfeirio at y canlynol:-

- Achos o halogi neu fater arall tebyg na chafodd ei nodi fel rhan o gynllunio datblygiad, sy'n arwain at gynnydd sylweddol yn y costau datblygu.
- Newid mewn polisi'r llywodraeth, rheoliad neu ddeddfwriaeth sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y cynllun neu'r rhaglen ddatblygu.
- Newid yn y galw am eiddo, sy'n cael ei ystyried yn ddi-droi'n-ôl.
- Gostyngiad sylweddol yng ngwerth marchnad eiddo yn yr amgylchiadau hynny lle bwriedir neu lle disgwylyr i asedau gael eu gwerthu.
- Anarferiant eiddo, neu ran o eiddo.
- Mae newidiadau arwyddocaol sydd wedi cael effaith niweidiol ar y landlord cymdeithasol wedi digwydd yn ystod y cyfnod, neu disgwylyr i newidiadau o'r fath ddigwydd yn y dyfodol agos, i'r fath raddau neu yn y fath fodd y defnyddir ased neu y disgwylyr i ased gael ei ddefnyddio.

Caiff colled amhariad ei wrthdroi os nad yw'r rhesymau dros golled amhariad yn dal i fod yn berthnasol. Dangosir y gwarged neu'r diffyg hwn yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

g) Grant Tai Cymdeithasol a grantiau eraill gan y Llywodraeth

Pan fydd grantiau ar gael gan asiantaethau'r llywodraeth, fel Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth datganoledig, awdurdodau iechyd a'r Comisiwn Ewropeaidd a phan fydd y rhain yn bodloni'r diffiniad o grantiau'r llywodraeth, maent yn cael eu cydnabod pan fydd sicrwydd rhesymol y cydymffurfir â'r amodau sydd ynghlwm â nhw ac y bydd y grant yn cael ei dderbyn. Derbynnir cyllid llenwi bwlch gwaddoli gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes gofyn ei ad-dalu.

Defnyddir y model croniadau i gydnabod grantiau'r llywodraeth, ac mae'r rhain yn cael eu dosbarthu naill ai'n grant sy'n ymwneud â refeniw neu grant sy'n ymwneud ag asedau. Cydnabyddir grantiau sy'n ymwneud â refeniw yn yr incwm ar sail systematig yn ystod y cyfnod y mae disgwyl i'r costau perthnasol y bwriedir i'r grant eu digolledu yn cael eu cydnabod. Pan dderbynnir grant i ddigolledu am dreuliau neu golledion sydd wedi'u hysgwyddo'n barod neu at ddibenion rhoi cymorth ariannol ar unwaith heb unrhyw gostau perthnasol yn y dyfodol, caiff ei gydnabod fel refeniw yn y cyfnod y bydd yn cael ei dderbyn.

Caiff grantiau sy'n gysylltiedig ag asedau eu cydnabod yn yr incwm ar sail systematig dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Caiff grantiau a dderbynnir ar gyfer eiddo sy'n dai

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

eu cydnabod yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig strwythur yr eiddo sy'n dai. Pan dderbynnir grant yn benodol ar gyfer cydrannau eiddo sy'n dŷ, caiff y grant ei gydnabod fel incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr elfen.

Caiff grantiau a dderbynnir o ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â'r llywodraeth eu cydnabod fel refeniw gan ddefnyddio'r model perfformiad.

h) Caffael tir neu ased arall am werth is na gwerth y farchnad neu ei gael yn rhodd

Pan dderbynnir rhodd o dir a/neu asedau eraill neu pan fydd CCM yn caffael tir a/neu asedau eraill am bris is na phris y farchnad, a hynny gan drydydd parti nad yw'n bodloni'r diffiniad o ffynhonnell y llywodraeth; caiff y trafodiad ei gydnabod fel ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol am werth teg, gan ystyried unrhyw gyfyngiadau o ran defnyddio'r ased. Mae incwm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng unrhyw symiau a dalwyd neu sy'n daladwy am yr ased a gwerth teg yr ased yn cael ei gydnabod yn warged neu'n ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel rhodd ar ôl bodloni amodau cysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol.

i) Cytundebau i wella eiddo sy'n bodoli eisoes

Mae gan CCM Loches TAW am 15 mlynedd, sydd wedi'i chymeradwyo gan CThEM. Mae'r Lloches TAW yn trosglwyddo costau TAW y gwaith sy'n angenrheidiol i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Dyma'r manylion:

- Trosglwyddodd y Cyngor eiddo i CCM o dan y cytundeb trosglwyddo, ynghyd â rhwymedigaeth i gynnal gwaith SATC ar draul y Cyngor. Y pris a dalwyd am yr eiddo oedd £133,023,642; mae'r pris hwn yn adlewyrchu Gwerth Marchnad y stoc gyda Thenantiaid, sef dim ac amcangyfrif o werth y gwaith, sef £133,023,642.
- Rhyddhaodd y Cyngor ei rwymedigaeth i gynnal y gwaith o dan y Cytundeb Trosglwyddo drwy ymrwymo i Gytundeb Datblygu 15 mlynedd â Chartrefi Cymoedd Merthyr. Mae hwn yn gontract pris penodedig am £133,023,642 a TAW o £19,953,546.

Yn ystod oes y Cytundeb Datblygu, mae gan CCM yr hawl i adennill TAW ar y costau y mae'n eu hysgwyddo gan drydydd partiön am gynnal gwaith SATC, fel sy'n cael ei nodi yn y Cytundeb Datblygu.

Effaith fasnachol y trafodiadau hyn yw bod gan CCM ased (rhwymedigaeth y Cyngor i ymgymryd â'r gwaith ailwampio) a rhwymedigaeth i drydydd parti sy'n rhwymo mewn cyfraith (o dan y Cytundeb Datblygu) ac mae'r asedau a'r rhwymedigaethau hyn yn cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol.

j) Rhestrau o'r hyn sydd ar gael

Caiff rhestrau o'r hyn sydd ar gael eu nodi ar y gost neu'r gwerth credadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

k) Cronfeydd cyfyngedig

Pan fydd cronfeydd wrth gefn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau allanol, byddant yn cael eu cydnabod ar wahân yn y cronfeydd wrth gefn fel cronfa

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

gyfyngedig wrth gefn. Mae refeniw a gwariant wedi'u cynnwys fel gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr a chaiff trosglwyddiad ei wneud o'r gronfa gyffredinol wrth gefn i'r gronfa gyfyngedig wrth gefn. Mae disgrifiad o bob cronfa gyfyngedig wrth gefn wedi'i gynnwys yn Nodyn 24.

l) Asedau ar brydles

Bydd CCM yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau ar y dechrau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn brydles, neu'n cynnwys prydles, ar sail sylwedd y trefniant.

Asedau ar brydles gyllidol

Caiff asedau sy'n trosglwyddo, i raddau helaeth pob risg a gwobr o ganlyniad i berchnogaeth, eu dosbarthu'n brydles cyllidol.

Caiff prydles cyllidol eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles am werth teg yr ased ar brydles, neu os yw hynny'n is, gwerth presennol isafswm taliadau'r brydles a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y brydles.

Caiff asedau eu dibrisio dros gyfnod y brydles a'r oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ar gyfer yr ased, pa bynnag un yw'r lleiaf. Asesir asedau am amhariad ar ddyddiad pob adroddiad.

Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles fel atebolrwydd ar ddechrau'r trefniant. Bydd taliad pob prydles yn cael ei ddosrannu rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn yr atebolrwydd sy'n weddill ar gyfer y brydles. Cydnabyddir y tâl cyllid ar sail sy'n adlewyrchu cyfradd llog rheolaidd a chyson ar atebolrwydd y brydles gyllidol.

Asedau ar brydles weithredu

Caiff asedau nad ydynt yn trosglwyddo pob risg a gwobr o ganlyniad i berchnogaeth, eu dosbarthu'n brydles gweithredu.

Codir taliadau o dan brydles gweithredu ar warged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail linol dros gyfnod y brydles.

m) Llog taladwy

Mae costau benthycu'n golygu llog a chostau eraill a ysgwyddir yng nghyswllt benthycu arian. Ar gyfer benthyciadau newydd, dyrennir y costau hyn i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros gyfnod y benthyciad. Pan gaiff benthyciadau eu hadbrynu, cydnabyddir cost lawn unrhyw gosb adbrynu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y bydd yr adbrynu'n digwydd.

n) Trethiant

(a) TAW

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi cofrestru ar gyfer TAW. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys TAW i'r graddau y mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn caniatáu hynny ac nid oes modd ei hadennill gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Mae gweddill y TAW sy'n daladwy neu'n adenilladwy ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i chynnwys fel ased neu rwymedigaeth gyfredol.

(b) Treth Gorfforaeth

Ystyrir CCM yn elusen at ddibenion trethu. Cadarnhaodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) hyn ar 3 Medi 2008.

O ganlyniad, mae'r gwarged sy'n deillio o'r prif weithgareddau elusennol wedi'u heithrio rhag cael eu trethu.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

o) Pensiynau

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae CCM yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT). Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n gweinyddu'r Gronfa. Roedd nifer o aelodau staff a drosglwyddodd i Gartrefi Cymoedd Merthyr adeg y trosglwyddo yn aelodau o'r gronfa ac roedd y Cyngor wedi talu unrhyw rwymedigaethau pensiwn adeg y trosglwyddo yn llawn, gyda'r cwmni cydfuddiannol yn ysgwyddo'r costau ar ôl hynny. Mae Bond Pensiwn ar waith am y swm o £1,228,000 (swm y Bond).

Mae gan bob gweithiwr presennol yr opsiwn o ymuno â'r cynllun pensiwn. Ond, bydd pob gweithiwr newydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig. Mae'n gynllun buddion wedi'u diffinio ac mae'r cynllun yn darparu buddion ar sail cyflog pensiynadwy cyfartaledd gyrfa ers 2014.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun sy'n cynnwys sawl cyflogwr, ac mae'n bosibl i gyflogwyr unigol, fel cyrff sydd wedi'u derbyn, nodi cyfran eu hasedau a'u rhwymedigaethau ar gyfer y cynllun pensiwn. Ar gyfer y cynllun hwn, y symiau a gynhwysir yn y gwarged gweithredu yw'r costau sy'n codi o wasanaethau gweithwyr yn ystod y cyfnod a chost cyflwyno'r cynllun, newidiadau i fuddion, setliadau a chwtogiadau. Fe'u cynhwysir fel rhan o gostau staff. Codir y gost llog net ar y rhwymedigaethau net ar fuddion wedi'u diffinio ar refeniw ac fe'i chynhwysir yn y costau cyllid. Mae ail-fesur sy'n cynnwys enillion a cholledion actiwaraid ac enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog

net ar y rhwymedigaeth net am fuddion wedi'u diffinio) yn cael eu cydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall.

Mae cynlluniau â buddion wedi'u diffinio'n cael eu hariannu ac mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i rai CCM, mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae asedau'r cynllun pensiwn yn cael eu mesur yn unol â gwerth teg a'r rhwymedigaethau ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Mae prisiadau actiwaraid yn cael eu darparu bob tair blynedd o leiaf ac yn cael eu diweddarau ar ddyddiad pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

p) Trosiant

Mae trosiant yn cynrychioli rhent a thaliadau gwasanaeth sy'n dderbyniadwy (heb gynnwys colledion taliadau gwasanaeth a rhent oherwydd unedau gwag a'r disgownt Debyd Uniongyrchol) ac enillion o waredu asedau cyfredol ynghyd â grantiau refeniw gan awdurdodau lleol; Llywodraeth Cymru a ffioedd a rhoddion elusennol.

q) Cronfa ad-dalu lesddeiliad

Pan fydd lesddeiliaid yn talu ymlaen llaw am waith mawr neu wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol, bydd unrhyw gyfraniadau nad ydynt wedi'u defnyddio'n cael eu cydnabod fel rhwymedigaeth yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

r) Offerynnau ariannol

Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd CCM yn dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Asedau Ariannol

Mae asedau ariannol yn cynnwys ôl-ddyledion rhent, masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy ac arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod. Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod am werth y trafodiad i ddechrau, yn ogystal â chostau trafodiad y gellir eu priodoli'n uniongyrchol.

Gwneir darpariaethau yn erbyn ôl-ddyledion rhent tenantiaid presennol a chyn-denantiaid yn ogystal â dyledion eraill, i'r graddau y maent yn cael eu hystyried yn anadenilladwy o bosibl.

Caiff ased ariannol ei ddatgydnabod pan fydd yr hawliau o dan gontract i'r llifoedd arian yn dod i ben, neu pan fydd yr ased ariannol a'r holl risgiau a gwobrau sylweddol yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd trefniant gyfwerth â thrafodiad ariannu, mesurir yr ased ariannol yn ôl gwerth presennol taliadau'r dyfodol gyda disgownt ar gyfradd llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg.

Rhwymedigaethau Ariannol

Mae'r rhwymedigaethau ariannol hyn yn cynnwys symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill a benthyciadau sy'n cynnwys llog.

Bydd unrhyw offerynnau dyled nad ydynt yn rhai presennol sy'n bodloni amodau angenrheidiol FRS 102 yn cael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth trafodiad cyn eu haddasu yn ôl unrhyw gostau trafodiad y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, gyda ffioedd sy'n gysylltiedig â llog yn cael eu cydnabod fel treuliau o dan y Costau Cyllido yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Pan

fydd gan offeryn dyled nad yw'n un presennol elfen nad yw'n sylfaenol, caiff ei fesur bob blwyddyn yn ôl gwerth teg, a chaiff unrhyw newid ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Dim ond pan fydd rhwymedigaeth gytundebol wedi'i dileu (hynny yw pan fydd y rhwymedigaeth wedi cael ei rhyddhau, ei chanslo neu wedi dod iben) y bydd rhwymedigaeth ariannol yn cael ei datgydnabod.

s) Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a chyfrifon cyfredol, ynghyd â buddsoddiadau eraill tymor byr, hylifol iawn sy'n barod i'w trosi'n symiau hysbys o arian ac sy'n destun risg heb fod yn arwyddocaol o newidiadau o ran gwerth.

3. Penderfyniadau pwysig y rheolwyr a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Mae gofyn i reolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar bolisiau a symiau'r asedau a'r rhwymedigaethau, yr incwm a'r treuliau yr adroddir arnynt wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a gwahanol ffactorau eraill y credir sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau. Mae canlyniadau'r rhain yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwerth cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Adolygir amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol yn barhaus. Caiff adolygiadau

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod yr adolygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnodau yn y dyfodol yr effeithir arnynt.

Penderfyniadau pwysig y rheolwyr

Dyma benderfyniadau'r rheolwyr wrth ddilyn polisiau cyfrifyddu CCM sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

Amhariad ar eiddo tai cymdeithasol

Mae'n rhaid i CCM asesu a oes arwydd o amhariad. Wrth wneud y penderfyniad, ystyriodd y rheolwyr y meini prawf manwl yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir.

Ansicrwydd amcangyfrifon

Mae CCM yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynghylch y dyfodol. Anaml fydd y gwir ganlyniadau'n cyfateb i'r amcangyfrifon cyfrifyddu. Isod, rhoddir sylw i'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sy'n cynnwys risg sylweddol o arwain at addasiad sylweddol i symiau cario ymlaen yr asedau a'r rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mesur gwerth teg

Mae'r rheolwyr yn defnyddio technegau prisio i bennu gwerth teg asedau. Mae manylion offerynnau ariannol CCM wedi'u mesur yn ôl gwerth teg ar gael yn nodyn 21. Defnyddir arbenigwyr rheoli'r trysorlys i ddarparu prisiad i CCM. Mesurir eiddo buddsoddi yn ôl gwerth teg, gan ddefnyddio gwerthoedd y farchnad sydd wedi'u paratoi gan gwmni o arbenigwyr prisio eiddo.

Darpariaethau

Wrth ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael ar ddiwedd blwyddyn, bydd rheolwyr yn amcangyfrif lefel y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer dyledion na fyddant o bosibl yn cael eu talu. Gwneir darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau a phrydlesi beichus ar ôl gadael y swyddfa a oedd ar brydles. Mae gofyn i'r rheolwyr roi amcangyfrif gorau o'r costau a ysgwyddir ar sail gofynion y contract ar gyfer y darpariaethau hyn.

Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Mae gan CCM rwymedigaethau i dalu buddion pensiwn i rai gweithwyr. Mae cost y buddion hyn a gwerth presennol y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys disgwyliad oes, cynnydd mewn cyflog, prisiadau asedau a chyfradd ddisgownt bondiau corfforaethol. Mae rheolwyr yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth bennu'r asedau pensiwn net yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn adlewyrchu profiadau hanesyddol a thueddiadau presennol. Mae cwmni o actiwariaid yn cael ei ddefnyddio i roi cyngor arbenigol i CCM ynghylch y rhagdybiaethau y dylid eu rhoi ar waitth.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

.....

4) Trosiant, Costau Gweithredu a Gwarged Gweithredu

Manylion trosiant, costau gwerthiant, costau gweithredu a gwarged gweithredu

Nodyn A

	2019 Trosiant £'000	2019 Costau Gweithredu £'000	2019 Gwarged Gweithredu £'000	2018 Trosiant £'000	2018 Costau Gweithredu £'000	2018 Gwarged Gweithredu £'000
Gosodiadau tai cymdeithasol (Nodyn B)	19,704	16,764	2,940	18,573	15,976	2,597
Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill						
Cefnogi Pobl	149	212	(63)	128	115	13
Incwm grant arall	7	-	7	8	-	8
Incwm arall	343	-	343	313	-	313
Cyfanswm	<u>20,203</u>	<u>16,976</u>	<u>3,227</u>	<u>19,022</u>	<u>16,091</u>	<u>2,931</u>

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Manylion incwm a gwariant gosod eiddo tai cymdeithasol

Nodyn B	Anghenion Cyffredinol £'000	Tai Gwarchod £'000	2019 £'000	2018 £'000
Incwm				
Rhenti derbyniadwy	17,023	835	17,858	16,915
Incwm tâl gwasanaeth	46	134	180	168
Amorteiddiad grantiau'r llywodraeth	1,666	-	1,666	1,490
Trosiant gosod tai cymdeithasol	18,735	969	19,704	18,573
Gwariant				
Costau tâl gwasanaeth	1	72	73	59
Rheoli	3,577	380	3,957	3,588
Cefnogi tenantiaid	169	-	169	139
Cynnal a chadw arferol	6,361	-	6,361	5,920
Gwariant ar atgyweiriadau mawr	2,512	-	2,512	2,698
Drwgddyledion rhent	63	-	63	94
Drwgddyledion incwm arall	39	-	39	32
Dibrisiant eiddo sy'n dai	3,590	-	3,590	3,446
Costau gweithredu	16,312	452	16,764	15,976
Gwarged gweithredu gosod tai cymdeithasol	2,423	517	2,940	2,597
Colledion ar unedau gwag	188	9	197	169

O dan grant ac incwm arall yn Nodyn A, mae incwm sydd wedi'i dderbyn o'r canlynol wedi'i gynnwys:

	2019 £'000	2018 £'000
Grantiau SPRG	149	128
Incwm grant arall	7	8
Rhenti siopau	187	140
Lesddeiliaid	55	96
Incwm arall	<u>101</u>	<u>78</u>

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

5) Gwarged Gweithredu

Gwarged gweithredu ar gyfer y flwyddyn ar ôl codi tâl:	2019 £'000	2018 £'000
Amortiddiad – asedau anniriaethol	143	143
Dibrisiant – eiddo sy'n dai	3,590	3,355
Amhariad – eiddo sy'n dai	-	88
Dibrisiant – asedau sefydlog eraill	310	291
Amhariad – asedau sefydlog eraill	-	6
Tâl yr archwilwyr ar gyfer gwasanaethau archwilio	19	18
Rhenti prydles gweithredu (arall)	10	4
Colledion rhent o ganlyniad i unedau gwag	197	169
Costau drwgddyledion	102	126

6) Gwarged ar Waredu Eiddo, Offer a Chyfarpar

	2019 £'000	2018 £'000
Enillion gwerthu	2,139	1,086
Llai costau gwerthu	(377)	(193)
Gwarged ar werthu eiddo sy'n dai	1,762	893
Colled ar waredu asedau sefydlog eraill	(68)	(79)
Gwarged ar ôl gwaredu	1,694	814

Mae enillion gwerthu'n cynnwys gwerthu 35 eiddo o dan y cynllun Hawl i Brynu (2018: 21 eiddo).

7) Llog sydd i'w Dderbyn

	2019 £'000	2018 £'000
Llog gan y banc sydd i'w dderbyn	26	10
Llog HFG2 sydd i'w dderbyn	12	-
Incwm Cyllid Pensiwn	97	102
Cyfanswm	135	112

8) Costau Ariannu a Llog

	2019 £'000	2018 £'000
Benthyciadau banc a gorddrafftiau	1,841	1,838
Ffioedd prydles cyllidol	37	34
Cyfanswm	1,878	1,872

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

9) Enillion y Cyfarwyddwyr

Y prif reolwyr yw'r swyddogion gweithredol a restrir ar dudalen 2.

	2019 £'000	2018 £'000
Cyflogau	287	380
Costau nawdd cymdeithasol	36	39
Costau pensiwn eraill	24	17
Cyfanswm costau staff	347	436
Enillion y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn	125	122

Mae'r Cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf (Prif Weithredwr) yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio Cartrefi Cymoedd Merthyr, ac nid oes unrhyw delerau arbennig na gwell yn berthnasol i'w aelodaeth. Nid yw CCM yn cyfrannu at unrhyw drefniant pensiwn unigol ar gyfer y Cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf, heblaw am gyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i Aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn (2018: £Dim).

Dyma nifer cyfwerth ag amser llawn y prif weithwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, a oedd yn derbyn taliad cydnabyddiaeth a oedd yn disgyn i'r bandiau canlynol:

	2019 Nifer:	2018 Nifer:
£90,001- £100,000	-	1
£100,001 - £110,000	2	2
£110,001 - £120,000	-	-
£120,001 - £130,000	-	1
£130,001 - £140,000	1	-

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

10) Costau Staff

	2019 £'000	2018 £'000
Costau staff yn ystod y flwyddyn:		
Cyflogau	5,220	4,997
Costau nawdd cymdeithasol	678	681
Costau pensiwn eraill	2,126	1,437
Cyfanswm costau staff	8,024	7,115

Nifer y staff bob mis ar gyfartaledd – cyfwerth ag amser llawn

	2019 Nifer:	2018 Nifer:
Mae hyn yn cynnwys -		
Gwasanaethau Cymorth Canolog, sy'n cynnwys:		
Cyllid, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Corfforaethol a Gweinyddol	36	38
Gwasanaethau Cartrefi ac Eiddo	98	98
Tai	59	53
Cyfanswm	193	189

Staff a oedd yn cael eu cyflogi ar ddiwedd y flwyddyn -
cyfwerth ag amser llawn

197 **190**

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar wythnos waith 37 awr.

11) Asedau Anniriaethol

Cost	Meddalwedd gyfrifiadurol £'000
Ar 1 Ebrill 2018	1,663
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	53
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(297)
Ar 31 Mawrth 2019	1,419
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2018	835
Tâl am y flwyddyn	143
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(297)
Ar 31 Mawrth 2019	681
Gwerth net ar bapur	
Ar 31 Mawrth 2019	738
Ar 1 Ebrill 2018	828

Mae'r gost yn cynnwys gwerth £721,904 o feddalwedd gyfrifiadurol a brynwyd yn allanol a gwerth £697,218 o feddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

12) Asedau Sefydlog Diriaethol – Tai ac Eiddo Eraill

Cost	Tai i'w gosod £'000	Tai sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £'000	2019 Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2018	74,849	425	75,274
Wedi'u trosglwyddo ar ôl cwblhau	425	(425)	-
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	5,143	33	5,176
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(534)	-	(534)
Ar 31 Mawrth 2019	79,883	33	79,916
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2018	18,055	-	18,055
Tâl am y flwyddyn	3,590	-	3,590
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(130)	-	(130)
Ar 31 Mawrth 2019	21,515	-	21,515
Gwerth Net ar Bapur Ar 31 Mawrth 2019	58,368	33	58,401
Ar 1 Ebrill 2018	56,794	425	57,219

Roedd costau wedi'u cyfalafu yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â chydannau. £13.66m oedd cyfanswm y gwariant ar eiddo yn ystod y flwyddyn. Roedd £5.18m o'r cyfanswm wedi'i gyfalafu ac roedd £8.48m wedi cael ei osod fel treuliau drwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

13) Stoc Tai

	2019 Nifer	2018 Nifer
Anghenion Cyffredinol	3,897	3,925
Gwarchod	206	206
Garejys	394	414
Eiddo Manwerthu	32	32
Tai Cydweithredol	12	12
Tai Prydlesol	166	170
Fflatiau Prydlesol	112	113
Garejys Prydlesol	213	213
Eiddo Manwerthu Prydlesol	7	7
Cyfanswm	5,039	5,092

14) Asedau Sefydlog Diriaethol – Arall

Cost	Dodrefn Swyddfa £'000	Offer Swyddfa £'000	Offer Cynllun £'000	Cerbydau Modur £'000	Adeiladau Swyddfa £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2018	670	587	145	494	4,258	6,154
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	28	153	72	72	173	498
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(443)	(140)	(3)	(22)	-	(608)
Ar 31 Mawrth 2019	255	600	214	544	4,431	6,044

Dibrisiant

Ar 1 Ebrill 2018	436	417	42	208	-	1,103
Tâl am y flwyddyn	50	104	11	109	36	310
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(408)	(137)	(1)	(22)	-	(568)
Ar 31 Mawrth 2019	78	384	52	295	36	845

Gwerth net ar bapur

Ar 31 Mawrth 2019	177	216	162	249	4,395	5,199
Ar 1 Ebrill 2018	234	170	103	286	4,258	5,051

Mae offer swyddfa'n cynnwys prydlesi cyllidol sy'n costio £41,000 (2018: £10,000), dibrisiant cronedig o £16,000 (2018: £8,000) a gwerth net ar bapur o £25,000 (2018: £2,000). Mae cerbydau modur yn cynnwys prydlesi cyllidol sy'n costio £544,000 (2018: £494,000), dibrisiant cronedig o £295,000 (2018: £208,000) a gwerth net ar bapur o £249,000 (2018: £286,000).

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

15) Eiddo Buddsoddi

	2019 £'000	2018 £'000
Ar 1 Ebrill	878	897
Newidiadau wrth ailbrisio eiddo buddsoddi	-	(19)
Ar 31 Mawrth	878	878

Pe byddai'r eiddo buddsoddi wedi cael eu mesur yn ôl cost hanesyddol, byddai'r gwerth cario ymlaen yn £Dim (2018: £Dim).

Cynhaliwyd asesiad o werth teg eiddo buddsoddi gan Savills, sef darparwr gwasanaethau eiddo tirol byd-eang sy'n arbenigo mewn prisiadau benthyciadau ar gyfer sicrwydd a chyfrifon Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol ac sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Penderfynwyd ar werth teg drwy gyfeirio at werth eiddo tebyg yn y farchnad. Roedd y ffactorau eraill a ystyriwyd yn cynnwys daliadaeth yr eiddo, manylion y denantiaeth, cyflwr yr adeilad, y risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r eiddo ac arwynebedd llawr yr eiddo. Ceir prisiad bob tair blynedd. Cafwyd prisiad o'r eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2018.

16) Rhestrau o'r hyn sydd ar gael

Dadansoddiad o'r stoc sydd ar gael:	2019 £'000	2018 £'000
Deunyddiau a defnyddiau traul	19	12

17) Dyledwyr: Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2019 £'000	2018 £'000
Ôl-ddyledion rhent	977	973
Llai: Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(312)	(295)
	665	678
Dyledwyr Gwerthu	429	342
Llai: Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(222)	(186)
	207	156
TAW	142	50
Dyledwyr eraill	574	462
Cyfanswm	1,588	1,346

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

18) Dyledwyr: Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn

	2019	2018
	£'000	£'000
Gwaith SATC		
Ar ddechrau'r flwyddyn	61,160	64,976
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	(5,938)	(3,816)
Ar ddiwedd y flwyddyn	55,222	61,160
 HFG2	 £'000	 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	121	-
Cydnabuwyd yn ystod y flwyddyn	136	121
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	(4)	-
Ar ddiwedd y flwyddyn	253	121
 Gwarant Amgylcheddol	 £'000	 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	-	-
Cydnabuwyd yn ystod y flwyddyn	141	-
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	-	-
Ar ddiwedd y flwyddyn	141	-
	55,616	61,281

Gweler Nodyn 29 – Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau er gwybodaeth ar waith SATC.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

19) Credydwy: Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2019 £'000	2018 £'000
Benthyciadau banc a gorddrafftiau	503	445
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidol	123	91
Croniadau	1,096	923
Incwm gohiriedig	118	112
Rhenti a dderbynnir ymlaen llaw	184	134
Cyflog a Chostau Eraill Gweithwyr	420	407
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	204	177
Gwariant cyfalaf ar eiddo sy'n dai	375	898
Credydwy cyfalaf eraill	120	16
Gwarant Amgylcheddol ar gyfer CBSMT	157	314
Cyfanswm	3,300	3,517

Fel rhan o'r Cytundeb Trosglwyddo â CBSMT, mae gofyn i CCM dalu swm i'r Cyngor, sy'n cyfateb i'r costau y mae CBSMT yn eu hysgwyllyddo ar gyfer yr yswiriant amgylcheddol ar gyfer eiddo CCM tan 2029. Y gweddill sy'n ddyledus i CBSMT tan 29 Mawrth 2029 o dan y cytundeb hwn yw £157,133.

Gweler Nodyn 20 am fanylion y sicrwydd a ddarperir.

20) Credydwy: Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	2019 £'000	2018 £'000
Benthyciadau banc - sylfaenol	24,000	24,000
Costau rhoi benthyciad gan y banc	(510)	(544)
Benthyciadau eraill	428	449
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidol	182	218
Cronfa ad-dalu Taf Fechan	19	14
Cronfa ad-dalu lesddeiliad	358	336
	24,477	24,473

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Benthyciadau

	2019 £'000	2018 £'000
Benthyciadau gan y banc		
Ar gais neu cyn pen blwyddyn	503	445
rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	-
rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
ar ôl pum mlynedd	24,428	24,449
	24,931	24,894

Caiff benthyciadau tai eu sicrhau (drwy Prudential Security Trustee) ag arwystl ar gyfanswm y stoc eiddo y mae CCM yn berchen arno. Mae CCM wedi trefnu cyfleuster benthyciad gwerth £40m i'w dynnu i lawr dros gyfnod o flynyddoedd, er mwyn talu am y gwaith SATC. Mae'r costau dyroddi yn berthnasol i ffi drefnu'r cyfleuster benthyciad.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan CCM gyfleusterau benthyciad heb eu tynnu i lawr, a oedd yn werth £16 miliwn.

Mae £20m o'n benthyciadau sy'n ddyledus ar gyfraddau sefydlog (£10m ar 7.475%, £8m ar 6.85% a £2m ar 6.825%). Bydd cytundeb cyfradd sefydlog arall ar gyfer £10m yn dod ar waith o 1 Ebrill 2020. Mae £4m o'n dyledion sy'n ddyledus ar gyfraddau amrywiadwy.

Yn ystod 2014/15 cafodd CCM fenthyciad o £510,000 dros 25 mlynedd ar gyfradd llog Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) o 2.92% gan CBSMT i dalu am ailwampio Taf Fechan House fel rhan o brosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid CBSMT.

Prydlesi cyllidol

	2019 £'000	2018 £'000
Prydlesi cyllidol		
Ar gais neu cyn pen blwyddyn	123	91
rhwng blwyddyn a dwy flynedd	104	98
rhwng dwy a phum mlynedd	78	120
ar ôl pum mlynedd	-	-
	305	309

Mae FRS102 wedi arwain at ailddosbarthu nifer o brydlesi cerbydau modur ac offer swyddfa o brydlesi gweithredu i brydlesi cyllidol.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Cronfa ad-dalu Taf Fechan

Mae aelodau Cydweithrediaeth Dai Taf Fechan yn talu ymlaen llaw am unrhyw waith mawr neu waith wedi'i gynllunio. Cydnabyddir unrhyw gyfraniadau nad ydynt wedi cael eu defnyddio fel rhwymedigaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Bydd y rhwymedigaeth hon yn gostwng yn unol ag unrhyw waith mawr neu waith sydd wedi'i gwblhau ar yr eiddo.

Cronfa ad-dalu lesddeiliad

O dan Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir 2014, pan fydd lesddeiliaid yn talu ymlaen llaw am waith mawr neu wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol, bydd unrhyw gyfraniadau nad ydynt wedi'u defnyddio'n cael eu cydnabod fel rhwymedigaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Bydd y rhwymedigaeth hon yn gostwng bob blwyddyn yn unol ag unrhyw waith mawr neu waith sydd wedi'i gwblhau ar eiddo prydles.

21) Offerynnau Ariannol

Dyma grynodedb o werthoedd cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau CCM yn ôl categori:

	2019 £'000	2018 £'000
Asedau ariannol		
Wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio		
Ôl-ddyledion rhent (gweler nodyn 17)	977	973
Dyledwyr gwerthu (gweler nodyn 17)	429	342
	1,406	1,315

Rhwymedigaethau ariannol

Wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio		
Benthyciadau sy'n daladwy (gweler nodyn 20)	24,428	24,449
Benthyciadau banc a gorddrafftiau (gweler nodyn 19)	503	445
Credydwy'r cyfalaf (gweler nodyn 19)	495	914
Cronfa ad-dalu lesddeiliad (gweler nodyn 20)	358	336
Cronfa ad-dalu Taf Fechan (gweler nodyn 20)	19	14
Gwarant Amgylcheddol (gweler nodyn 19)	157	314
	25,960	26,472

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Isod, ceir crynodeb o incwm, treuliau, enillion a cholledion CCM o ran offerynnau ariannol:

	2019 £'000	2018 £'000
Incwm a thraul llog		
Cyfanswm incwm llog ar gyfer offerynnau ariannol am gost wedi'i hamorteiddio	37	34
Cyfanswm traul llog ar gyfer offerynnau ariannol am gost wedi'i hamorteiddio	1,841	1,838
Enillion a cholledion gwerth teg		
Ar rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	-	(19)

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

22) Cyllid gwaddoli a grantiau eraill gan y llywodraeth

	Tai i'w gosod £'000	Tai sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £'000	2019 Cyfanswm £'000
Cyllid gwaddoli a grantiau eraill			
Ar 1 Ebrill 2018	(35,354)	(310)	(35,664)
Wedi'u trosglwyddo ar ôl cwblhau	(310)	310	-
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	(2,900)	(334)	(3,234)
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	239	-	239
Grant ailgylchu yn ystod y flwyddyn	(239)	-	(239)
Ar 31 Mawrth 2019	(38,564)	(334)	(38,898)
Amorteiddiad Grantiau			
Ar 1 Ebrill 2018	9,043	-	9,043
Tâl am y flwyddyn	1,730	-	1,730
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(64)	-	(64)
Ar 31 Mawrth 2019	10,709	-	10,709
Gwerth Net ar Bapur			
Ar 31 Mawrth 2019	(27,855)	(334)	(28,189)
Ar 1 Ebrill 2018	(26,311)	(310)	(26,621)

Cyfanswm cronrus y grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yw £38.9m. Mae hyn yn cynnwys £32.58m o gyllid gwaddoli, £3.79m o grantiau effeithlonrwydd ynni, £2.27m o grantiau tai cymdeithasol a £258k o HFG2.

Mae cyllid gwaddoli'n gysylltiedig â'r grant gwaddoli a geir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r £2.9m a dderbyniwyd, ailddefnyddiwyd £239k a oedd yn gysylltiedig â gwaredu cydrannau yn ystod y flwyddyn hefyd.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

23) Cyfalaf Cyfrannau

	2019	2018
	Na	Na
Cyfrannau ar ddechrau'r flwyddyn	1,172	1,065
Rhoddwyd yn ystod y flwyddyn	171	147
Canslwyd yn ystod y flwyddyn	(22)	(40)
Ar ddiwedd y flwyddyn	<u>1,321</u>	<u>1,172</u>

Mae gan aelodau'r hawl i bleidleisio yng Nghyfarfodydd yr Aelodau, ond nid yw aelodaeth yn golygu yr hawl i daliadau neu l ddosbarthu difidend pan fydd yn dirwyn i ben.

24) Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn

	2019	2018
	£'000	£'000
Pensiwn wrth gefn		
Ar ddechrau'r flwyddyn	3,545	3,766
Symudiad actiwaraid	2,667	809
Trosglwyddo i'r Gronfa Refeniw Wrth Gefn	(1,593)	(1,030)
Ar ddiwedd y flwyddyn	<u>4,619</u>	<u>3,545</u>

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cyfateb i werth Ased y Gronfa Bensiwn. Felly, mae wedi'i chyfyngu, ac nid yw ar gael i'w gwario ar gyfer unrhyw ddibenion cyffredinol gan CCM.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

25) Prydlesi gweithredu

Dyma gyfanswm y taliadau prydles lleiaf dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo yn y dyfodol:

	Arall	
	2019 £'000	2018 £'000
Costau Prydlesi Gweithredu sy'n ddyledus:		
O fewn blwyddyn	10	4
Rhwng dwy a phum mlynedd	23	-
Mewn mwy na phum mlynedd	-	-
	<u>33</u>	<u>4</u>

26) Ymrwymadau ariannol

Dyma'r ymrwymadau ariannol:	2019 Cyfanswm £'000	2018 Cyfanswm £'000
Gyda chontract ar eu cyfer ond heb ddarparu ar eu cyfer		
o fewn blwyddyn	638	619
rhwng un a phump o flynyddoedd	1,200	1,600
ar ôl pum mlynedd	-	-
Wedi'u cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr ond dim contract ar eu cyfer	-	-

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

27) Nodiadau ar y Datganiad Llifoedd Arian

	2019 £'000	2018 £'000
Arian net a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol		
Gwarged gweithredu am y flwyddyn	3,178	1,966
Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol:		
Amorteiddiad asedau anniriaethol	143	143
Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar	3,900	3,646
Amorteiddiad grantiau'r llywodraeth	(1,730)	(1,537)
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith:		
(Cynnydd) / lleihad yn y rhestrau o'r hyn sydd ar gael	(7)	3
(Cynnydd) mewn dyledwyr < 1 flwyddyn	(243)	(351)
Gostyngiad mewn dyledwyr > 1 flwyddyn	5,665	3,695
Cynnydd mewn credydwyr < 1 flwyddyn	112	344
Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr > 1 flwyddyn	27	(316)
(Gostyngiad) mewn darpariaethau	(5,788)	(3,527)
Costau pensiwn llai cyfraniadau sy'n daladwy	1,690	1,131
Swm cario ymlaen gwaredu eiddo, offer a chyfarpar	508	(68)
Colled amhariad ar waredu eiddo, offer a chyfarpar	-	94
Addasiad ar gyfer buddsoddi ac eitemau ariannu:		
Gwarged o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	(1,694)	(814)
Llog sydd i'w dderbyn	(135)	(112)
Costau cyllido a llog	1,878	1,872
Newidiadau o ran gwerth teg offerynnau ariannol	-	-
Newidiadau o ran gwerth teg buddsoddiadau	-	19
Arian net a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol	7,504	6,188
 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	 £'000	 £'000
Arian yn y banc ac mewn llaw	6,168	1,654
Yr hyn sy'n gyfwerth ag arian parod sy'n cael ei gynnwys	-	-
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	6,168	1,654

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

28) Partion cysylltiedig

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gennym wyth Aelod annibynnol o'r Bwrdd. Nid oedd yr un ohonynt yn denant nac yn barti cysylltiedig.

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys 11 o denantiaid sy'n aelodau, ac roedd deg ohonynt yn eu swyddi ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tenantiaethau a ddarperir i aelodau o'r Corff Democrataidd yn seiliedig ar delerau safonol CCM ac ni chaiff aelodau ddefnyddio eu swydd i'w mantais eu hunain. Ar 31 Mawrth 2019 nid oedd ôl-ddyledion rhent cronrus ar gyfer y tenantiaid a oedd yn aelodau (2018: £dim) ac roedd y derbyniadau cronrus a ddaeth i law yn ystod y penodiadau yn dod i gyfanswm o £46,145 (2018: £49,976).

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys wyth o weithwyr sy'n aelodau, ac roedd pob un ohonynt yn eu swyddi ar ddiwedd y flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2019 roedd taliadau cyflog cronrus y gweithwyr a oedd yn aelodau yn dod i gyfanswm o £247,235 (2018: £216,302).

Mae'r Corff Democrataidd yn cynnwys dau Gynrychiolydd y Cyngor a dim ond un ohonynt oedd yn ei swyddi ar ddiwedd y flwyddyn. Gwneir unrhyw drafodiadau â'r Cyngor ar hyd braich, ar delerau masnachol arferol, ac ni chaiff Cynrychiolwyr y Cyngor ddefnyddio eu swydd i'w mantais eu hunain. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CCM daliadau a oedd yn dod i gyfanswm o £4.2m (2018: £4.1m) i CBSMT yn bennaf yng nghyswllt y gyflogres a Chytundebau Lefel Gwasanaeth; roedd y gweddill yng nghyswllt ardrethi busnes a chostau eraill. Mae cyfanswm o £78,667 wedi'i gynnwys o dan ddyledwyr, ac mae £73,489 yn gysylltiedig â Grant Cefnogi Pobl na dderbyniwyd. Mae cyfanswm o £351,506 wedi'i gynnwys o dan credydwyr, sy'n gysylltiedig â chostau'r gyflogres a Chytundebau Lefel Gwasanaeth, ac mae £157,133 yn gysylltiedig â'r warant amgylcheddol; mae popeth yn ddyledus i CBSMT.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

29) Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

	Swyddfa	Gwaith SATC	2019	2018
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	289	61,160	61,449	64,976
Darparwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn	325	-	325	289
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(175)	-	(175)	-
Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	-	(5,938)	(5,938)	(3,816)
Ar ddiwedd y flwyddyn	439	55,222	55,661	61,449

Swyddfa

Ym mis Mai 2018, fe wnaethom symud i brif swyddfa a oedd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol. Mae'r ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2019 yn cynrychioli amcangyfrif o'r rhwymedigaeth gytundebol sy'n ddyledus sy'n codi o gyn brydles Martin Evans House yng nghyswllt taliadau prydles a chostau dirywiadau.

Gwaith SATC

Trosglwyddodd y Cyngor eiddo i CCM o dan y cytundeb trosglwyddo, ynghyd â rhwymedigaeth i gynnal gwaith SATC ar draul y Cyngor. Y pris a dalwyd am yr eiddo oedd £133,023,642; mae'r pris hwn yn adlewyrchu Gwerth y Farchnad gyda Tenant y stoc, sef dim ac amcangyfrif o werth y gwaith, sef £133,023,642. Ar 31 Mawrth 2019, mae £55.222m (2018: £61.160m) yn cael ei ddangos o dan Dyledwyr: symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn ac yn y darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau.

30) Digwyddiadau ar ôl y Dyddiad Adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

31) Costau Pensiwn

Mae gweithwyr Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn CBSRhCT, sy'n gynllun pensiwn llywodraeth leol. Ymunodd CCM â'r cynllun ar 30 Mawrth 2009. Mae'r datgeliad hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion wedi'u diffinio, ac mae'r asedau'n cael eu dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Roedd y cyfraniadau yn y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £782,284, ac roedd cyfraniadau'r cyflogwyr yn dod i gyfanswm o £435,351 a chyfraniadau'r gweithwyr yn dod i gyfanswm o £346,933.

Yn unol â gofynion FRS102, mae actiwari annibynnol cymwysedig yn prisio'r gronfa pensiwn er mwyn canfod gwerth y cynllun ac mae'r flwyddyn flaenorol wedi'i hailddatgan yn unol â hynny.

Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Amcangyfrifir mai cyfraniadau rheolaidd gan y cyflogwr i'r gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020 fydd £566,000.

Rhagdybiaethau

Cynhaliwyd prisiad diweddaraf yr actiwari ar rwymedigaethau'r gronfa ar 31 Mawrth 2016. Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hamcangyfrif gan yr actiwari cymwysedig annibynnol ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd:

Rhagdybiaethau ariannol ar gyfer prisio Rhwymedigaethau'r CPLIL a ariennir		
Rhagdybiaeth	31 Mawrth 2019 (% y flwyddyn.)	31 Mawrth 2018 (% y flwyddyn.)
Cyfradd ddisgownt	2.50%	2.60%
Chwyddiant y Mynegai Prisïau Manwerthu (RPI)	3.20%	3.10%
Chwyddiant y Mynegai Prisïau Defnyddwyr	2.10%	2.00%
Cynnydd mewn pensiynau a delir (CPI)	2.10%	2.00%
Cyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn	2.10%	2.00%
Cynnydd mewn cyflog	3.35%	3.25%

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Rhagdybiaethau ynghylch cyfradd marwolaethau ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2018

Dynion	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
Aelod 65 oed ar ddyddiad cyfrifo	22.2	22.9
Aelod 45 oed ar ddyddiad cyfrifo	23.9	25.1
Menywod	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
Aelod 65 oed ar ddyddiad cyfrifo	24.1	25.0
Aelod 45 oed ar ddyddiad cyfrifo	25.9	27.3

Dyrannu asedau

Dosbarth asedau	Gwerth ar 31 Mawrth 2019	Gwerth ar 31 Mawrth 2018
Ecwiti	64.5%	74.8%
Eiddo	6.9%	5.4%
Bondiau'r Llywodraeth	13.5%	8.5%
Bondiau corfforaethol	11.6%	9.4%
Arian parod	3.5%	1.9%
Arall	0.0%	0.0%

Dyma raniad y rhwymedigaethau yn y prisiad diwethaf rhwng yr amrywiol categorïau o aelodau:

Aelodau gweithredol	69.0%
Pensiynwyr gohiriedig	8.0%
Pensiynwyr	23.0%

Symiau a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall

	31 Mawrth 2019 £M's	31 Mawrth 2018 £M's
Enillion / (colledion) o ran asedau yn ystod y cyfnod	2.832	0.897
Enillion / (colledion) o ran rhwymedigaethau yn ystod y cyfnod	(0.165)	(0.088)
Cyfanswm a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall	2.667	0.809

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Cysoni'r statws 'a ariennir' â'r Sefyllfa Ariannol

	31 Mawrth 2019 (% y flwyddyn.)	31 Mawrth 2018 (% y flwyddyn.)
Gwerth teg yr asedau	42.636	38.283
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio presennol	38.017	34.738
Asedau pensiwn net	4.619	3.545

Newidiadau yng ngwerth teg asedau

	31 Mawrth 2019 £M's	31 Mawrth 2018 £M's
Gwerth teg agoriadol yr asedau	38.283	36.226
Incwm llog ar asedau	1.002	0.945
Enillion / (colledion) aifedur asedau	2.832	0.897
Cyfraniadau gan y cyflogwr	0.435	0.311
Cyfraniad gan gyfranogwyr	0.347	0.318
Buddion net a dalwyd	(0.263)	(0.414)
Cynnydd net yn yr asedau o safbwynt gwaredu / caffael	0.000	0.000
Setliadau	0.000	0.000
Gwerth teg yr asedau ar y diwedd	42.636	38.283

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio

	31 Mawrth 2019 £M's	31 Mawrth 2018 £M's
Gwerth presennol agoriadol y rhwymedigaethau	34.738	32.461
Costau gwasanaeth cyfredol	1.543	1.435
Costau llog	0.905	0.843
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.347	0.318
Colledion / (enillion) actiwaraid ar rwymedigaethau	0.165	0.088
Buddion net a dalwyd	(0.263)	(0.414)
Costau gwasanaeth blaenorol	0.582	0.007
Cwtogiadau	0.000	0.000
Cynnydd net mewn rhwymedigaethau o safbwynt gwaredu / caffael	0.000	0.000
Setliadau	0.000	0.000
Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio ar y diwedd	38.017	34.738

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Enillion gwirioneddol ar asedau		
	31 Mawrth 2019 £M's	31 Mawrth 2018 £M's
Incwm llog ar asedau	1.002	0.945
Enillion / (colledion) ar asedau	2.832	0.897
Enillion gwirioneddol ar asedau	3.834	1.842

